

ECO'R WYDDFA

RHIF 46

MAWRTH 1980

Pris: 12c

GWASTRAFF NIWCLEAR

**Crynodeb o araith y Dr. Eirwen Gwynn
yn Seilo, Caernarfon 23 Chwefror.**

Gwastraff niwclear yw'r bwan mawr y dyddiau hyn. Beth yw? A phaham y pryderwn cymaint yn ei gylch?

Mae'r pwerdai niwclear yn arllwys gwastraff ymbelydrol (radioactive) gwan, ond hwyrach nid yn ddiniwed, i'r garthffosiaeth ac i'r môr neu i Lyn Trawsfynydd. Ond mae yna hefyd wastraff tra ymbelydrol, yn cynnwys y rodiau tanwydd treuliedig o'r ymweithyddion (reactors); rhaid cadw hwn mewn tanciau dŵr ar y safle nes i'r gwres a'r ymbelydredd dreulio peth. Yna fe'i cludir i Windscale i gael tynnu ohono y plwtoniwm sydd mor hanfodol i wneud bomiau niwclear. Cedwir y gwastraff hylifol o'r broses hon mewn tanciau yn Windscale ac y mae'r swm ohono'n cynyddu'n feunyddiol. Bydd yn parhau i ymbelydru am filoedd o flynyddoedd. Y bwriad yw ei droi'n solat, yn rhyw fath o wydr, maes o law, a'i gladdu wedyn yn y ddaear neu ei ollwng i eigion y môr.

Mae rhai gwyddonwyr yn honni na fydd hyn yn ddiogel. O'i gladdu yn y ddaear, byddai'n dal i dwymo a gallai daeargryn (megis a fu yn yr Alban yn ddiweddar) neu ddyfroedd tanddaearol yn llifo drosto ei ddatgymalu rhyw ddydd.

Fe ddigwyddodd damwain fawr yn Rwsia yn 1958 er na chafwyd gwybod am y peth yn y Gorllewin tan 1976, a hynny'n ddamweiniol. Ffrwydrodd stôr tanddaearol o wastraff niwclear gan droi mil a phum can milltir sgwâr (mwy nag arwynebedd Gwynedd) yn anghyfnedd a lladd ni ŵyr neb pa nifer. Gellir dadlau na ddigwyddai'r un peth yma; ond sut fedr neb fod yn sicr a ninnau heb unrhyw brofiad o gladdu gwastraff niwclear? Dyna waddol i'w adael i'n disgynyddion!

Mae perygl hefyd mewn cludo deunydd ymbelydrol ar draws gwlad, nid yn unig oherwydd y posibilrwydd o ddamwain ond hefyd am y gallai'r deunydd gael ei ddwyn gan herwigpwy - ac nid oes brinder o'r rheini y dyddiau yma. I ddelio â'r fath argyfwng rhoddwyd hawl yn 1976 i'r Awdurdod Ynni Atomig hyfforddi byddin o wŷr arfog i warchod y deunydd ymbelydrol. Tybir bod eisoes dros 500 ohonynt. A gall hyn ddatblygu i fod yn fygythiad newydd i ryddid yr unigolyn ym Mhrydain.

Ond, meddech chwi, rhaid rhoi'r



Susan Owen, Brenhines Carnifal Deiniollen gyda'i gosgordd.

gwastraff niwclear yn rhywle os ydym am bŵer niwclear. A dyna'r cwestiwn sylfaenol: a oes gwir angen pŵer niwclear? Mae'r rheini sy'n eiddgar drosto fel rheol ynglŷn â'r diwydiant mewn rhyw fodd, un ai'n uniongyrchol neu trwy gysylltiadau academaidd; neu y maent yn wleidyddion gyda'u cymhellion eu hunain. Yn Adroddiad Flowers ar lygru'r Amgylchedd fe sylwir mor anodd y bu cael barn wrthrychol ar y pwnc gan yr arbenigwyr. Mae'n haws cael barn wrthrychol gan wyddonwyr annibynnol sydd heb unrhyw gymhellion ond lles y gymdeithas.

Beth ynteu yw'r prif ystyriaethau ynglŷn â phŵer niwclear? Yn y lle cyntaf, y mae'n ddull o gynhyrchu trydan sydd yn ei hanfod yn aneffeithiol. Ffwrnais yw ymweithydd niwclear mewn gwirionedd; mae'n cynhyrchu ager i droi tyrbein yn union fel y gwna ffwrnais lo neu olew. Ac y mae pob un o'r rhain yn gwastraffu cyfran helaeth iawn o'r ynni. Yn yr oes dechnolegol hon, fe ddylid medru dyfeisio dulliau mwy effeithiol o gynhyrchu trydan.

Mae peryglon cydnabyddedig ynni niwclear yn peri pryder cyffredinol. Ni chredir bod damwain fawr mewn pwerdy niwclear yn debygol iawn. Ond gan mai creadur ffaeledig yw dyn a'i fod yn y fan hyn yn trin technoleg newydd, fe all ddigwydd, fel y gwelwyd yn Three Mile Island. Yn wir, amcangyfrifir y bydd o leiaf un ddamwain fawr rhywle yn y byd cyn diwedd y ganrif. A'r gwir yw na fedr unrhyw wlad fforddio'r fath ddamwain; byddai'n drychinebus.

Er bod yr awdurdodau'n gwadu hynny, mae'n bosibl fod y pwerdai niwclear yn graddol lygru'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae'r Athro Sternglass o America yn honni iddo brofi hyn trwy astudio'r ystadegau marwolaeth yn yr ardaloedd o gwmpas pwerdai niwclear America a chael cynnydd yn y marwolaethau o ganser a liwcemia.

Fe ddisgwyli'r gweithwyr mewn pwerdai niwclear ddioddef dogn uwch o ymbelydredd na'r cyhoedd yn gyffredinol; ond dogn mympwyol yw hwn, nid dogn 'diogel' fel yr honnir. Mae lle i gredu bod rhai eisoes wedi dioddef oherwydd eu gwaith yn y diwydiant niwclear. Yn ddiweddar, fe dalwyd iawndal sylweddol (heb fynd i gyfraith) i ddwy weddw i weithwyr o'r fath. A

daeth newydd dro'n ôl am farwolaeth gweithwyr niwclear yn Tsiecoslofacia.

Mae Dr. Glyn O. Phillips ac eraill yn eu gwaith yn cymharu diogelwch honedig y pwerdai niwclear â record y pyllau glo; cymhariaeth gamarweiniol. Dylid cymharu'r pwerdai niwclear â'r pwerdai glo; y pyllau iwraniwm â'r pyllau glo. Gwyddom yn dda am ddamweiniâu'r pyllau glo; ni chawn byth wybod, fel enghraifft, am y niwed i iechyd y dynion duon sy'n gweithio ym mhyllau iwraniwm R.T.Z. yn Namibia (De Affrica) sy'n cyflenwi 42 y cant o anghenion Prydain.

Mae pelydrau yn niweidio'n llechwraidd; ni ellir eu synhwyro mewn unrhyw fodd. Mae effeithiau dognau mawr o belydredd yn amlwg ac yn echrydus. Ond gall dognau bach cyson dros amser niweidio hefyd un ai trwy gychwyn canser a liwcemia neu trwy niweidio'r deunydd etifeddol yr ydym yn ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Mae'n amhosibl profi bod unrhyw unigolyn arbennig yn dioddef oherwydd iddo gael ei belydru. Dim ond trwy gasglu ystadegau am farwolaethau yn y dyfodol y daw'r effeithiau i'r amlwg; ac erbyn hynny, bydd yn rhy hwyr i atal y drwg.

Ond os na fynwn bŵer niwclear, beth arall gawn ni? Mae amrywiaeth o ddulliau posibl o ddefnyddio ffynonellau adnewyddol o ynni: yr haul, y llanw, tonnau'r môr, dyfroedd yn y mynyddoedd (mae Norwy yn cynhyrchu'r cyfan o'i thrydan o ddŵr) ac amryw eraill. Ac y maent yn gymharol ddilygredd. Haera pleidwyr pŵer niwclear y byddai datblygu'r rhain yn rhy gostus. Ond wrth amcangyfrif cost trydan o'r pwerdai niwclear, maen nhw'n anwybyddu'n llwyr gostau datblygu pŵer niwclear a methiant yr ail genhedlaeth o ymweithyddion, heb sôn am y ffaith fod gwerthu plwtoniwm fel is-gynnyrch yn lleihau pris trydan o'r pwerdai niwclear. A dyna hwyrach berygl mwyaf pŵer niwclear, sef bod pob pwerdy o'r fath yn cynhyrchu deunydd y gellir ei ddefnyddio i wneud bomiau. A chydâ'r diwydiant niwclear yn gwerthu pwerdai i wledydd ar draws y byd, gallai hyn arwain i'r Armagedon terfynol - dim llai.

Mae Mrs Thatcher a'i chriw eisiau

(Parhad ar dud. 7)

PWY ... PRYD ... BLE?



Cymeriadau tra gwahanol yr olwg i'r rhai yng nghornel arall y dudalen hon! Os oes gennych unrhyw syniad pwy ydynt, anfonwch air atom i'n goleuo.

ECO'R WYDDFA

RHIF 46 MAWRTH 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug
(C'fon 3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisrwaun.

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220).

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gwledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones,
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul (Llanberis 533)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
27 MAWRTH.

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 19 MAWRTH
os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,
Fel y gwyr y rhai o'ch darllenwyr
fu yng Nghynhadledd Flynyddol
Plaid Cymru yn Llandudno fis
Hydref eleni, mae cartref Mr H.R.
Jones yn Neiniolen ar werth. H.R.
Jones oedd Ysgrifennydd
Cyffredinol cyntaf Plaid Cymru
yn ugeiniau'r ganrif hon, ac un
o'r rhai fu'n brysur yn gosod
sylfeini'r blaidd.

Dymuniad Cymdeithas Tai
Gwynedd, a sefydlwyd yn
nechrau'r degawd sy'n prysur
ddirwyn i derfyn, yw prynu'r tŷ
hwn, yn hytrach na chaniatau
iddo syrthio i ddwylo estroniaid,
ei adnewyddu a'i osod i deulu
lleol. Er mwyn sicrhau fod y
wybodaeth am orffennol y tŷ yn
cael y sylw dyladwy, y bwriad yw
gosod llechfaen ar y mur yn
cofnodi'r ffaith.

Yn anffodus, nid yw cofrau
Cymdeithas Tai Gwynedd yr hyn
yr hoffem iddynt fod ar hyn o
bryd. Mae angen mwy o gyfalaf
eto i sicrhau fod y pryniant
pwysig hwn yn digwydd. Hoffwn
wneud apêl ar i bawb sy'n teimlo
fod hwn yn fater pwysig, ac sydd
am wneud rhywbeth i'n
cynorthwyo, anfon arian i
'Gymdeithas Tai Gwynedd —
Cronfa H.R. Jones'. Gellir
gwneud benthyciad di-log, neu
fuddsoddiad fydd yn denu'r llog
arferol, neu gwell fyth o safbwynt
y Gymdeithas, rhodd i'r Gornfa.

Anfonwch eich cyfraniadau,
neu am fwy o fanylion, at
Drefnydd Cymdeithas Tai
Gwynedd, Ffordd Llanllyfni,
Penygroes, Caernarfon.
Diolch yn fawr iawn.

Yn gywir,

Ieuan Parri,
(Cadeirydd Cymdeithas Tai
Gwynedd)
Caereuni,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd.

EISTEDDFOD DAFARN DRADDODIADOL

Annwyl Olygydd,
Carwn dynnu sylw eich
darllenwyr, yn enwedig y beirdd
yn eu plith, ei bod yn fwriad
gennym gynnal Eisteddfod
Dafarn Draddodiadol yn yr hen
ddull yng Ngwesty'r Angel
Aberystwyth, ar Fawrth yr
wythfed eleni.

Y drefn fydd fel a ganlyn:
Rhwyng 11.00—6.00: cystadlu a
thrafod cyrffyr ac anffurfiol (h.y.
ymrysonau, englyna ar y pryd
a.y.y.b). Gyda'r hwyr bydd cyfle i
feirdd a chantorion gwerin
gystadlu ar y Testunau gosod:
Englyn: Cwrw go iawn; Englyn
Digri: Gwely Dwbwl; Hir a
Thoddaid: Y Steddfod Dafarn;
Cywydd (Cystadleuaeth y
Gadair!): Moliant Gwesty'r
Angel; Chwech o Dribannau:
Picil yr Eisteddfod Genedlaethol;
Baled: Unrhyw ddigwyddiad
cyfoes cyffrous; Soned: I Wyn
Roberts; Enllib: Cadwyn o
Eglynion (Agored)

Canu: Unrhyw faled; Cân Werin
Ddifyfeiliant, Cân Werin
Offerynol (Grŵp neu Unigolyn).

Bydd yn ofynnol i'r Beirdd
ddod a'u cyfansoddiadau gyda
hwy ar y noson, oblegis ni
wobrwyir neb onifo'n bresennol.
Bydd gwobrau teilwng i'r Beirdd
buddugol!

I'r sawl a ddymuno lety
cysyllter â 617236 (Aberystwyth)
cyn 25ain o Chwefror. Ac am
unrhyw fanylion neu Wybodaeth
bellach cysyllter â'r un rhif ffôn.

Mawr obeithiwn y dewch yn
llu.

Hwyl,

E. Lewis (Cadeirydd)
Robin Gwyn (Ysgrifennydd)
Swyddfa U.M.C.A.
Maes Lowri,
Aberystwyth.

Annwyl Syr,

Mae cangen o Gymdeithas y
Galon (The British Heart
Foundation) wedi ei sefydlu drwy
ymdrechion a gwaith caled Miss
Mair H. Ellis, 38 Stryd Williams,
Caernarfon. Adnabyddir y
gangen fel "Caernarfon a'r Cylch"
i gynrychioli pentrefi ardal Eco'r
Wyddfa gyda chynrychiolwyr o'r
pentrefi ar y Pwyllgor.

Pwrpas y Gymdeithas yw codi
arain a ddefnyddir ar gyfer
ymchwil meddygol i afiechydon
y galon, ac y mae'r Gymdeithas
yn cyfrannu yn helaeth at ein
Hysbty Hyfforddi yn y De. Mae
ysbty Môn ac Arfon wedi
derbyn offer diweddaraf hefyd,
ynghyd â chyfarpar mewn
amryw ambiwlans.

Os byddwch am wybodaeth
bellach, am sefydlu cangen yn
eich pentref, neu yn fodlon helpu
mewn unrhyw fodd i godi arian
at y gwaith ardderchog yma,
cysylltwch â Miss Ellis, Ffôn:
Caernarfon 2573.

Yn gywir,

Hefina Williams,
Artro,
Cae Corn Hir,
Yr Hendre,
Caernarfon.

COED FOEL RHIWEN

Syr,

Yr hyn a ddywedid am Goed Foel
Rhiwen pan oeddwn yn blentyn
oedd mai Mr G.W.
Assheton-Smith, sgweir y
Faenol, a'u plannodd i goffau
Kiwbili y frenhines Fictoria ym
1887, a'i fod wedi eu plannu ar
ffurd y gair JUBILEE. Coed
Jiwbilee fyddent yn cael eu galw.
Bu y sgweir farw ym 1904, a
dilynwyd ef gan Mr Charles G.
Assheton Smith. Gwnaethpwyd
ef yn 'Syr' amser Arwisgiad
Tywysog Cymru ym 1911. Nid
oedd y ddau sgweir wedi bod ar
delerau rhy dda a'i gilydd, ac er
dial, un o'r pethau wnaeth y
sgweir newydd oedd torri rhai o'r
coed i anffurfio a difetha'r gair
'Jubilee'. Torrwyd rhai o'r coed,
fel y dywed Jos Hughes, Y Rhyf,
yn ystod rhyfel 1914—18, a'r

gweddill yn ystod rhyfed
1939—45.

H. Thomas,
Llanor.

At Olygydd Eco'r Wyddfa,
Pleser mawr i mi oedd darllen
hanes Ap Galslyn yn erthyglau
Mary Lloyd Williams yn Eco'r
Wyddfa.

Efallai byddai o ddiddordeb i
chwi wybod mai taid i mi oedd
Ap Glaslyn a ganddo ef y'm
magwyd yn Llanbradach, Sit
Forgannwg.

Diolch i chwi am daflu golau
dros ei ddyddiau cynnar. Mi
ddysgais lawer ffaith na wyddwn
o'r blaen.

Yn ddiffuant,

Edward J. Owen
7 Dorney Grove,
Weybridge
Surrey KT13 8NE

Annwyl Syr,

Carwn ddiolch i bawb a fu mor
garedig ag ymateb i'r apêl am
wybodaeth a defnydd ynglŷn â hanes
plwyf Llanrug. Derbyniais doreth o
wybodaeth; yn daflenni, llyfrynau a
nodiadau, ynghyd â rhai lluniau
gwerthfawr. Yn ogystal, derbyniais
wahoddiad i ymweld â chartrefi
amryw, a charwn eu hysbysu nad wyf
wedi eu hanghofio, ac y byddaf yn siŵr
o wneud trefniadau i ymweld â hwy mor
fuan ag y bydd amser yn caniatáu.

Bydd y wybodaeth ychwanegol a
gefais yn werthfawr iawn, ond mae rhai
o'r nodiadau yn gofyn am waith
ymchwil gweddol fanwl. Hoffwn
gyfeirio'n arbennig at Mrs. B.L.
Griffith, Llanfaircaereinion, a
anfonodd wybodaeth newydd sbon
ynglŷn ag ardal y Clegir a rhannau o
blwyf Llanberis, e.e., gwaith sidan
Glynrhonwy, ymryson rhwyfo ar Lyn
Padarn, y syrcau gyntaf i ymweld â'r
ardal, cysylltiadau teuluol trigolion y
Clegir, etc.

Mae peth o'r wybodaeth a
dderbyniais yn ffitio'n ddaclus i ryw fath
o jig-so hanesyddol anferth, gan
gysylltu hen deuluoedd plwyf Llanrug
â'i gilydd. Gallaf yn awr olrhain rhai o
deuluoedd plwyf Llanrug o ganol y
ddeunawfed ganrif. Os oes rhywun â
diddordeb yn hanes ei deulu, gall ddod i
gysylltiad.

Gyda diolch i bawb a ddangosodd
ddiddordeb.

Yr eiddoch yn gywir,
Dafydd Whiteside Thomas,
Bron y Nant,
Pontrhythallt,
Llanrug.

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

PETH O WAITH CYMDEITHAS TAI GWYNEDD

YM MRO'R ECO



Bwthyn Ty'n'rardd (yng nghanol y rhes fechan) un o'r tai a ail-luniwyd gan y Gymdeithas. Tai haf yw'r rhai sydd o bobtu iddo.

Prynodd y Gymdeithas Bwthyn Ty'n'rardd, Penisarwaun yn 1977. Bwthyn bychan ydoedd gyda stafell fyw siambar a chrogloff.

Oherwydd cyfyngiadau'r safle, 'doedd dim posibil' ehangu'r adeilad ond ymlaen, ac felly 'roedd yn amhosib cadw edrychiad yr hen fwthyn yr un fath. Felly aeth y pensaer (Ifan Gwyn) ati i greu bwthyn hollol newydd, gyda'i gymeriad arbennig ei hun, gan ddefnyddio llechi i ychwanegu at y cymeriad hwnnw.



Yr ychwanegiadau sy'n ei wneud yn dŷ newydd.

Yn y tŷ newydd – mae stafell fyw, sef maint yr hen fwthyn, cegin a stafell ymolchi i lawr ac yn awr ceir dwy lofft i fyny.

Y tenant yw Arfon Jones a'i mam – a dyma'r tŷ lle'i ganwyd!

Gwnaed llawer o'r gwaith ar y tŷ o dan y Cynllun Creu Gwaith, gan roi gwaith i nifer o weithwyr lleol.

Gorffennwyd y gwaith gan adeiladwyr Cymdeithas Tai Gwynedd.

A DYMA RANNAU O'R Tŷ – O'R TU MEWN




Y gegin fyw.



Mae cartref H.R. Jones – 8 Tai Gweledfa, Deniolen hefyd wedi'i brynu gan y Gymdeithas. Cedwir y gronfa ar agor i gael rhagor o arian ar gyfer gwneud rhai gwelliannau i'r tŷ cyn ei osod.

Gosodir llechfaen ar y tŷ i gofnodi'r cysylltiad â H.R. Jones, ac fe'i dadorchuddir gan Miss Eleanor Jones, ei chwaer.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG**

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

DEINIOLLEN

CYNGOR EGLWYSI - Wedi trafodageth yn ddiweddar teimlodd aelodau'r Cyngor y dylem fel ardal wneud rhywbeth i gynorthwyo y trueiniaid yng Nghambodia. Erbyn hyn mae'n dda gennym fel Cyngor gyhoeddi fod y swm o 1335.76 wedi ei anfon i'r Cymorth Cristnogol, ar ôl casgliad o dŷ i dŷ yn yr ardal, a hefyd cyfraniadau a rhoddion o holl eglwysi'r ardal. Diolch yn fawr i bawb a wnaeth hyn yn bosibl.

FFATRI BERNARD WARDLE - Penderfynwyd fel Cyngor anfon llythyr ar Gyfarwyddwr y cwmni, J.W. Sharpe Ysw a hefyd anfon copi o'r llythyr i Nicholas Edwards AS, yr Ysgrifennydd dros Gymru yn y Senedd i ddatgan ein pryder ynghylch cau'r ffatri yng Nghaernarfon a gofyn iddynt ailystyried yn ofalus iawn.

CARNIFAL - Cynhaliwyd noson goffi llwyddiannus iawn yn ysgol Gwaungynfi nos Wener, Chwefror 15. Prif bwrpas y noson oedd dewis Brenhines y Carnifal am 1980 a'i llys. Rhoddwyd y gwaith pwysig yma yn nwylo yr actor adnabyddus John Ogwen, a'r enwau a ddewisodd oedd Brenhines: Susan Owen, Pen y Bwlch, Mynydd Llandegai. 'Principal Boy': Dawn Evans, 56 Pantre Helen. Morynion: Helen Mair Jones, 14 Tai Marian. Yvonne Denise Jones 1 Maes Gwylfa, Clwt-y-bont, Linda Thomas, 5 Rhydfadog, Nia Wyn Griffith, 3 Tai Glyn. Macwyaid: Geraint Saynor Gwylfa, Stryd Fawr a Rheinallt Williams, 32 Hafod Olau.

Trefnwyd y noson gan is-bwyllgor y Carnifal a charent ddiolch yn fawr iawn i John Ogwen, Mr a Mrs Jones, Y Becws, Mrs Morris, Tŷ Capel Cefnywaun, Mr a Mrs Thomas, Rhyda, Mr W.J. Evans, prifathro'r ysgol ac aelodau'r gegin, a phawb a gyfrannodd mewn gweithred a rhodd i wneud y noson mor llwyddiannus. Cynhelir wythnos y Carnifal eleni o ddydd Sul, Gorffennaf 6 hyd Sadwrn 12.

TEYRNGED - Bu farw Mr John Peris Jones, 10 Ffordd Deiniol, ar Fawrth 17 1979. Dyma'r Parch D. Terry Thomas BA, BD, Aberteifi (Capel Disgwylfa gynt) yn cofio'r "triniwr awrleisiau" -

Mud yw'r organ mwyach ar aelwyd 'nymbar ten'

Cans esgynnodd ei pherchennog i loyw nen.

Ond sefyll beunydd ar gelfydd ddwy law

Yn esgor ar felodïau'r byd a ddaw.

Cofiaf o hyd law chwarelyddol gain Fu'n trin awrleisiau byd amser gyda graen

Llygad yn craffu ar berfeddion hen gloc,

A'i wên o orfoledd yn swm y 'tic toc'.

Mawr eneiniedig emynau Seion gynt,

Esgynasant fry o'r aelwyd ar eu hynt.

Llais ac organ yn uno i foli'r lôr

Yng nghwmni pêr nefolaidd sanctaidd gôr.

Er creulon yr angau, er distaw y bedd,

Ni thawodd y gân, ni ddiorseddwyd mo'r hedd.

Gwirionedd byd arall sy'n seinio'n fy nghlyw,

Nid marw'r organydd a'r triniwr, ond byw.

MRS MARREN - Ar ôl i'r stori amdani ymddangos ar dudalen flaen yr Eco, derbyniodd Mrs Marren llythyr oddi wrth Mr Richard Jones, 32 Coed Bedw, Abergale (cyn-ysgolfeistr yn Ysgol Gwaungynfi). Yn ei llythyr dywed Mr Jones i Mrs Marren ddod

ag anrhydedd i Eryri, ac yn enwedig i Ddeiniolen. Peth braf oedd gweld mai nid lle di-nod oedd Deiniolen yng ngolwg y Pab, hyd yn oed os mai dyma farn rhai pobl yng ngogledd Cymru am y pentref. Er i'r eglwys anrhydeddu Mrs Marren sonia Mr Jones am y ffordd y mae Mrs Marren hithau wedi anrhydeddu'r eglwys hefyd.

DIOLCH - Dymuna Mrs C. Marren, Plas Eryr, Clwt y Bont ddatgan ei diolch i holl ardalwyr Deiniolen a'r cylch, am eu geiriau caredig, a'r llu cardiau a llythyrau a dderbyniodd yn ei llongyfarch ar yr anrhydedd a dderbyniodd yn ddiweddar.

Dymuna Mr a Mrs N.W. Williams, 3 Tai Victoria a'r teulu ddatgan eu diolchgarwch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn eu profedigaeth.

Hefyd dymuna Miss Eira Wynne Jones, 3 Rhydfadog ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a'i chyfeillion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Chwefror 9. Diolch yn fawr iawn.

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn ystafell y Seindorf nos Fawrth, Chwefror 19. Trefnir raffi wanwyn eleni a bydd tocynnau ar gael yn fuan.

Nos Wener, Chwefror 29, bydd cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Victoria dan nawdd cangen Llanberis. Gofynnir i aelodau'r gangen gysylltu â Mr Barry Jones, Tŷ'r Faenol, os ydynt yn dymuno mynd.

Enillwyr Clwb Cant Chwefror yw - £15: Mr Clifford Edwards, Gerlan, Clwt-y-bont (rhif 94). £10: Mr Paul Williams, Tal-y-weunydd, Penisarwaun (rhif 84)

CAPEL CEFNYWAUN - Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn yn Llys Myfyr, ddydd Gwener, Chwefror 22. Trefnwyd y bore yma gan Mrs Miriam Lewis a Mrs Valmai Williams, 2 Tai'r Faenol. Dymunant ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth. Codwyd swm ardderchog at Gronfa'r organ.

CEFNYWAUN-DISGWYLFA

I'R BALA - Dyna fu hanes 14 o aelodau 'Clwb yr Ifanc' a gynhelir yn Nisgwylfa yn wythnosol. Treuliwyd penwythnos yng nghanolfan leucenctid y Presbyteriaid yn yr hen Goleg. Thema'r penwythnos oedd 'addoli' a bu'r plant yn astudio gwahanol ffurfiau ar addoli gan ddefnyddio dawn, canu ac arlunio gwahanol ffurfiau ar addoli gan Wendy Jones, Anwen Jones, Gwenlli Roberts, Rhian Jones (Ebeneser), Carys Evans, Brigid Hughes, Dewi Lewis, Bryn Jones, Andrew Jones, Nia Wyn Hughes (Bethel), Wendy Williams, Ellen Williams, Amanda Collins a Glyn Griffith.

CYMDEITHAS LENYDDOL - Nos Lun, Ionawr 27 y gŵr gwadd oedd Mr O.E. Evans, Llanrug. Diddorwyd aelodau'r gymdeithas gan hanes yr arferiad a geir yn Swydd Derby o gofio am ymwarded pobl rhag y Pla Du yn ystod y 14 ganrif. Dangosodd Mr Evans nifer o sleidiau yn portreadu golygfeydd Beiblaidd. Ychwanegwyd at fwyniant y gwrandawyr gan ffordd ddeheuig y siaradwr o gyflwyno ei neges.

CYMDEITHAS POBL IEUAINC - Ar hyn o bryd mae'r aelodau'n mynd o amgylch aelodau'r eglwys i dderbyn rhoddion. Cynhelir Ffair Wanwyn nos Wener, Mawrth 21 yn Ysgol Gwaun Gynfi, yr elw tuag at Gronfa'r Organ.

Y GANOLFAN GYMDEITHASOL



Llawr un ystafell wedi ei ostwng ddwy droedfedd



Y rwbwl wedi dymchwel wal frics a chodi'r llawr presennol cyn tyrchu i lawr i ddyfnder o ddwy droedfedd.

CANOLFAN GYMDEITHASOL - Fel yr adroddwyd yn rhifyn Chwefror o'r Eco y mae cynllun ar waith i addasu seler Ysgol Gwaungynfi fel rhan o Ganolfan y pentref. Diweddwyd yr adroddiad gyda'r geiriau 'Beth amdani bobl Deiniolen - pawb â'i ysgwydd dan y baich'. Cafwyd ymateb da i'r apêl yna ac o ganlyniad i'r cyfarfod a gynhaliwyd fore Sadwrn, Ionawr 26 gwnaed rhestr o dros 30 o wŷr y pentref sy'n barod i gynorthwyo yn cynnwys bricwyr, trydanwyr, seiri, plymwyr a gwŷr caib a rhaw. Eisoes dechreuwyd ar y gwaith o ostwng llawr y seler i ddyfnder o ddwy droedfedd fel y gellir rhoi llawr newydd o goncrid. Fel y gwelir yn y lluniau uchod y mae llawer o waith eto i'w wneud ond gydag ymroddiad gwŷr y pentref hyder y bydd y cyfan wedi ei orffen yn ystod 1980.

MARWOLAETH - Bu farw Mrs Jane

Griffith, Tai Macpelah yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor ddydd Mawrth, Chwefror 19. Cydymdeimlwyd fel ardal â Mr a Mrs John Griffith (mab) Tan yr Henffordd, a'r holl gysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

DYMUNIADAU DA - Mae nifer o'r pentref yn dioddef o anhwylder iechyd, rhai gartref ac eraill mewn ysbytai. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt oll.

LLONGYFARCHIADAU - Un waith eto cawn y pleser o longyfarch Mr J.D. Evans (Joni Yard) ar ei lwyddiant mewn eisteddfodau. Yn Eisteddfod Bethel derbyniodd gwpan hardd, y wobwr 1af am emyn, a hefyd ail wobwr am linell goll.

Yn Eisteddfod 'Y Ffôr' Pwllheli, cafodd ail wobwr am Ysgrif. Llongyfarchiadau calonnog iawn iddo.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

DEINIOLEN



Llun o Barti Pen-blwydd Sefydliad y Merched yn 30 oed a gynhaliwyd yn yr hen Ysgol Babanaod (Clinic yn awr) ym mis Chwefror 1952. Erbyn hyn y mae o fewn dwy flynedd o fod yn 60 mlwydd oed. Y Band a'r Wl yw'r unig gymdeithasau mae'n debyg, sydd wedi para i gadw wrth ei gilydd cyhyd, yn yr ardal.

Enwau'r aelodau sydd yn y Llun o'r chwith i'r dde. Rhes Flaen: Mrs Richie Williams, Deniol Rd.; Mrs J. Williams (Ynys Iago); Mrs Owen Roberts (Pentre Helen); Mrs J. Williams, Terrace; Mrs G. Lloyd Jones, Tŷ Capel Libanus; Miss Priscie Roberts (Llywydd; a'i mam Mrs L. Roberts (yn torri'r gacen. Mrs Meurig Jones.

Rhe ôl: Miss Eleanor Jones; Mrs S.M. Hudson; Mrs Harriet Davies; Mrs S. Moses-Jones; Mrs Louisa Williams, Rhydfadog; Wrth y bwrdd ar y chwith Mrs J.W. Jones (Trysorydd); ac ar y dde Mrs J. Williams, Rhydfadog (Ysgrifennydd).

Rhes ôl: Mrs Ciss Williams, Miss Jennie Williams, New Street; Mrs Ellis Thomas, Mrs K. Thomas, Bryn Du; Mrs R. Lloyd Jones, Cynfi Terrace ai merch Mrs Gwyneth Roberts; Mrs Elfed Morris, Mrs Emrys Hughes, Clwtybont; Mrs Idwen Thomas, Mrs Blodwen Hughes, Vaynol Terrace; Mrs R. Jones (Dinorwig) a Mrs John Jones.

LLYTHYR – Oddi wrth Mrs Gracie Owen.

Gwelais yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, mewn print pur blaen y Parch Terry Thomas yn Cofio Deiniolen, ac yn bur siomedig nad oedd ei enw i lawr ymysg gweinidogion yr ardal. Sylwer mai o'r degau i ddechrau'r tridegau ydyw cynnwys y llyfr, pan oeddwn i ond ieuanc iawn yn yr ardal, a'r cyfan yn waith cof i gyd, heb nac ymchwil na holi fawr ar neb, ac 'rwyf wedi gadael yr ardal ers dros hanner canrif, felly nid oedd sôn am y Parch Terry Thomas yn Nisgwylfa gan ei bod yn 1948 arno'n dechrau gweinidogaethu yno. Anfonais air yn ymddiheuro iddo, er nad oedd yno yn fy amser i, ac ni chefais erioed y fraint o'i gyfarfod.

Nodiad ar bwynt arall, yn yr Eco; rai rhifau'n ôl, holai Owen Jones, Rhes Cynfi beth oedd ystyr yr enw 'Oddfellows'. Credaf mai enw a roddwyd ar glwb o ddynion oedd hwn, oherwydd ychydig yn ôl deuthum ar draws ddarn o ruban ryw 6 x 4 modfedd wedi ei frodio ag edau liw aur. Ar ben hwn 'roedd y geiriau 'Independent Order of Oddfellows Manchester Unity'. Yn is i lawr ar y


llaw chwith saif gwraig yn dal baban gyda dau blentyn arall wrth ei thraed. Ar yr ochr dde mewn ffrog goch saif gwraig a phlentyn arall wrth ei hochr. Yn y canol rhwng y ddwy wraig saif croes felen, gydag amryw gerfluniau o'i chwmpas ac o dan y groes, y geiriau AMITICIA-AMOR et VERITAS. Tebyg yw fy mod wedi defnyddio'r ruban i rywbeth ond wedi cadw'r bathodyn. Cofiaf fel y cerddai'r dynion ar achlysuron neilltuol wedi eu gwisgo gyda'r rhubannau. Credaf mai clwb cleifion yr ardal oedd a thebyg yw fod Owen Jones yn cofio'r clwb yn Deiniolen. 'Roedd y swyddfa y drws nesaf i Tomi Hughes y fferyllydd gydag Evan Roberts. Rhiwen yno yn derbyn tâl o chwe cheiniog neu swilt gan y chwarelwyr, wn i ddim ai bob wythnos neu bob mis, er mwyn iddynt gael ychydig syltau yn ychwanegol at eu harian yswiriant, pan ddeuai gwaeledd i'w cwrdd. Gobeithiaf y bydd hyn o eglurhad yn help i Owen Jones, ond dyma'r gorau a allaf fi ei wneud.

Yr eiddoch yn gywir,
Gracie Owen



Llun cynnar o Ddeiniolen o lethrau Gallt y Foel.

Cyngerdd Nadolig 1904



Tocyn Cyngerdd trwy garedigrwydd Mr John Evans, 8 Glandwr Terrace, Clwt-y-bont, Deiniolen. Tybed a oes rhywun yn cofio'r cyngerdd uwchraddol hwn?

FACHWEN

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Harri Owens, 5 Heol Ioan, Llanrwst ar ddathlu eu priodas aur ar Chwefror 22, 1980.

Un o'r Fachwen yw Mrs Gwen Owens, yn ferch i'r diweddar Elin a Robert Closs Parry, Ty'n Pwll. Ar hyd ei bywyd yn Llanrwst mae wedi bod yn weithgar a ffyddlon i gapel Seion M.C. gyda gwahanol sefydliadau eraill yn Llanrwst. Mae'n fawr ei pharch.

Mae Harri Owens yn hanu o Feddgelert a Phorthmadog ac yntau hefyd yn fawr ei barch ac yn adnabyddus mewn cylch eang. Roedd yn organydd yn ei ddydd a bu'n swyddog yswiriant cyn iddo ymddeol.

Mae ganddynt ddau o blant – merch yn athrawes, a theulu ganddi yn Llundain; a mab ym Mhorthaethwy sef Alwyn Owens sydd yn ddarlithydd mewn electroneg ym Mhrifysgol Bangor.

Mae Mrs Owens yn derbyn yr Eco yn rheolaidd. Ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.

I ddathlu'ch Priodas Euraidd, Cyfeillion cywir sydd Yn estyn eu cyfarchion Ar yr arbennig ddydd. Pob bendith i'r dyfodol Ddymunwn i chwi'ch dau, A nodded gras y nefoedd O'ch amgylch yn parhau.

Enid

DIOLCH

Diolch i'r rhai canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£2: H.T. ac E. Lewis, Awstralia; Mrs Nancy Thomas, Waunfawr; Di-enw, Clwt-y-bont; Eric Williams, Tŷ Capel, Dinorwig;

£2.00 – Di-enw Clwt-y-bont
£2.00 – Eric Williams, Tŷ Capel, Dinorwig.


Am Fargeinion mewn setiau du a gwyn a setiau lliw

**SIOP
DELEDU
T
CEPAS**

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG
(Ffôn Llanberis 205 min nos)

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



**Bwsiau Arfon
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254**

TAN-Y-COED

BEDYDD – Nos Wener, Chwefror 22 bedyddiwyd Ellen Vaughan, merch fach bum mis oed Glenys Ellen a Cemlyn Vaughan Williams, Pennant, Groeslon, ac wyres Mrs Megan Williams, Dwyfor a'r diweddar Mr Gwilym O. Williams. Y Parch W.O. Roberts oedd yn gweinyddu ym Mhennant.

Dymuniadau da'r ardal i Ellen Vaughan.

BRYSIWCH WELLA – Dymunwn adferiad buan i Mr Eric Morris, Awelfryn. Cafodd Mr Morris driniaeth i'w lygaid yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, yn ddiweddar.

Croeso adre i Mrs Elizabeth Ellis, 3 Tai Bryngwyn a dreuliodd y Nadolig gyda'i mab Mr Tom Ellis a'r teulu yn Nottingham.

CYDYMDEIMLWN – â Mrs Rhys Owen, Gwynant, Tai Trefor, a'r teulu ar ymadawiad sydyn nith Mrs Owen, Mrs Brenda Wyn Williams, 44 mlwydd oed o 8 Cefn Cwellyn, Rhyd Ddu.

MARW – Chwefror 6, bu farw Mrs Gwen Nelson Baker, ar ddydd ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Claddwyd hi ar Chwefror 13 yn Breakstead. Merch i'r diweddar Mr William Humphreys gynt o 'Lodge Pantafon' oedd Mrs Baker. Cydymdeimlwn â'i mab Nelson, ei dwy chwaer Kate, a Blodwen, a'i nith

Mrs Jennie Rees Hughes, Oerddwr yn eu profedigaeth.

Ar bob llaw gwelir arwyddion y gwanwyn, penbyliaid yn y nentydd, eirysiau, saffrwn, a briallu yn y gerddi, blagur yn y llwyni, trydar yr adar yn y coed, ac oen bach du newydd gyrraedd i gae gerllaw. Wyn Ael-y-bryn wedi gweld cacwn heddiw – dydd 'sgwennu'r nodiadau hyn ac Aled ei frawd ofn mynd allan rhag iddo ei bigo. Pictiwr i'w gofio oedd gweld cath fach ddu a gwyn – Smotyn (am fod smotyn du ar ei thrwyn) ar frigyn uchel coeden fytholwyrdd; a durtur gadwynog ar frigyn arall yn ei hymyl. Smotyn ar y cychwyn yn edrych yn gas, a'i chynffon yn ysgwyd yn barod am ysgarmes, ond rhaid iddi newid ei meddwl. Hanner ffordd tuag at y durtur llonyddodd ei chynffon, stopiodd ac eistedd yn dangnefeddus a'r durtur heb symud gerllaw, dwy yn gytûn yn yr un lle.

Blant Tan-y-coed, cerddwch o gwmpas y gwanwyn yma â'ch llygaid yn agored i ganfod rhywbeth diddorol sydd yn digwydd o'ch cwmpas ym myd natur, a dowch â'r hanes i'w gofnodi yn y golofn hon. Yr ydych yn byw mewn ardal hyfryd a thoreth o ddigwyddiadau diddorol yn digwydd yn dawel a di-stŵr o'ch cwmpas.

Siop Siarad

Bydd datblygiad newydd ym maes dygu'r Gymraeg gyda chyhoeddi rhifyn cyntaf cylchgrawn i ddysgwyr o bob oed, *Siop Siarad*, ar Ebrill 20, 1980. Pris y cylchgrawn 12 tudalen fydd 15c. Bydd yn ymddangos bob dau fis.

Y golygydd yw Cris Jones, cyn-fyfyriwr 21 oed a brodor o Gaerdydd a ddysgodd Gymraeg yn ei arddegau. "Gan mai dysgwr oeddwn fy hun ar un adeg, 'rwy'n credu fod gen i syniad reit dda o beth sydd yn aeplio at ddysgwyr," meddai. "Wrth ddysgu'r iaith mae angen dod i adnabod nodweddion a hanfodion ein cenedl, felly bydd cryn bwyslais ar erthyglau ar hanes, a diwylliant a'r rhain yn rhai bywiog, a dadleuol, gobeithio." Yn ogystal bydd pytau o newyddion am Gymru, am ddysgwyr ac am ddatblygiadau ym maes dysgu'r Gymraeg, ynghyd ag erthyglau o naws ysgafnach – rhaid dysgu chwerthin yn y Gymraeg hefyd.

Y gobaith yw y bydd *Siop Siarad* yn cyfrannu'n helaeth at y mudiad iaith ond ni ellir gwneud hyn heb gymorth llyfrwerthwyr, athrawon a dysgwyr fel ei gilydd. Mae angen mawr am gyfranwyr a hysbysebwy. Os medrwy gynorthwyo'r fenter, cysylltwch â'r Cyhoeddwy, Cyhoeddiadau Mei, Bryn Mair, Dolydd, Y Groeslon, Caernarfon. (Ffôn: Llanwnda 830003).

DEG GORCHYMYN AR GYFER GWYL DDEWI

(allan o *Seren Cymru*,
wythnosolyn y Bedyddwyr,
1.2.80)

A wyddoch chi ble a phryd y cyhoeddwyd y rhain?

1) Cyfeirwch bawb yn Gymraeg – Saeson yn ogystal.

2) Cyfeiriwch eich holl lythyrau yn Gymraeg.

3) Anfonwch bob teiligram yn Gymraeg.

4) Dywedwch y rhif, pan ffoniwch, yn Gymraeg, e.e. "Llanfair, un naw saith."

5) Llenwch bob ffurflen i'r Llywodraeth yn Gymraeg.

6) Anfonwch lythyrau Cymraeg at bob Cyngor Cymdeithas a ffyrn yng Nghymru a Lloegr (byddwch yn sicrhau swyddi i Gymry felly, yn ogystal â hyrwyddo'r iaith Gymraeg).

7) Llenwch bob siec yn Gymraeg.

8) Gofynnwch ymhob siop, banc a gorsaf, am yr hyn a fyynnwch yn Gymraeg.

9) Os na'ch deëllir yno, mynnwch rywun a'ch deall.

10) Rhoddwch ffafr bob amser i bawb a hysbyseba ac a wna fusnes yn Gymraeg.

Wel, y cwestiwn oedd 'Ble a phryd y cyhoeddwyd y gorchmynion uchod?'

A'r ateb? Yn 'Seren yr Ysgol Sul', Mawrth 1937. Yn sicr mae nifer o wersi yma i ninnau wrth i ni wynebu Gŵyl Ddewi 1980.

PENISARWAUN

EGLWYS Y SANTES HELEN – Llongyfarchwn Mr a Mrs T.W. Griffith, 16 Bryntirion sydd yn daid a nain am y tro cyntaf. Dymunwn wellhad buan i Mrs N.M. Pritchard, 4 Brynhyfryd a Mrs Owen Thomas, Tai Newyddion.

Fe fydd Cymun Bendigaid bob bore dydd lau am hanner awr wedi deg trwy gyfnod y Grawys. Fe weinyddir gan y Parch Gwynfor Williams, rheithor Llanrug.

PEBLIG – Da oedd gweld cynrychiolaeth deilwng o'r pentref y tu allan i'r Royal yng Nghaernarfon ar fore Sadwrn, Chwefror 9 i ddangos eu cefnogaeth i weithwyr Peblig yn eu hymdrech i gadw'r gwaith ar agor. **MR GWYNFOR WILLIAMS**, Bryn Tirion – Balch oeddem o glywed bod Gwynfor yn well wedi ei anffawd yn Lerpwl ar ôl gêm Everton yn erbyn Wrecsam.

MRS GWLADYS THOMAS, Tai Newyddion – Nid yw Mrs Thomas wedi bod yn dda ei hiechyd dros y gaeaf ond erbyn hyn y mae hi yn gwella. Yr ydym yn dymuno iddi wellhad llwyr yn fuan iawn.

MR MATTHEWS, Freshwinds – Mae Mr Matthews wedi cael triniaeth lawfeddygol ond 'rwan mae o gartref. Dymunwn yn dda iddo gan obeithio y bydd yn gwella'n llwyr yn fuan.

DYWEDDIAD – Llongyfarchwn Eleri, Tan y Gaer a Leigh Roberts, unig fab Mr a Mrs Douglas Roberts, Llanrhymney, Caerdydd ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

ADNABOD ATHRAWES – Ynglŷn â

llun Ysgol y Cyngor Penisarwaun 1910 mae Miss Laura Jones, 9 Craig Dinas yn anfon enw'r "athrawes ar y dde" sef Miss Mary Evans, Clwt-y-bont.

PWYSIG – Cofiwch am y noson 'Cawl a Chân' yn yr ysgol Gynradd, nos Lun, Mawrth 10. Dewch i ymuno yn yr hwyl, i wrando ar ganeuon Edwards, ac i gefnogi Eisteddfod y pentref yr un pryd.

Mae Rhestr Testunau Eisteddfod Penisarwaun ar gael yn awr, pris 10c. (neu 20c drwy'r post). Cysylltwch â Tegid Roberts, Arwel neu Tony Elliott, Crud y Wawr am gopïau.

CERDD – Gan un sy'n dysgu Cymraeg. Mae Bob Turner, Tyddyn Difyr wedi bod yn cyfansoddi barddoniaeth yn Saesneg ers rhai blyneddoddd. Yn wir cyhoeddodd gyfrol o'i gerddi, 'Requiem for a Decade', yn ôl yn 1972. Ond yn awr mae Bob yn aelod o ddosbarth Cymraeg Leslie Larsen, Len Jones a Tony Elliott. Wythnos neu ddwy yn ôl dangosodd Bob gopi o gerdd o'i eiddo i Tony Elliott. Yn naturiol 'roedd angen cywiro iaith, sillafu ac yn y blaen yma ac acw, ond mae'n bleser gan yr Eco gyhoeddi'r gerdd yng ngholofn newyddion Penisarwaun.

WAUN

Mae'r Waun yn crio yn y nos, a chymylau meddal yn crwydro dros y pentref,

a'r Waun yn cysgu.

Mae bys coch y Wawr

yn ateb, ateb ateb,

trwy'r tywyllwch;

Y tywyllwch, y tywyllwch distaw

R.E. Turner

Enillydd Cystadleuaeth yr Eco



Enillydd Cystadleuaeth Nadolig yr Eco, Mrs N. Jones, 28 Stryd Elinor, Caernarfon, yn derbyn ei gwobr oddi wrth Richard Morris.

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: PADARN 278

Pryd gorau'r fro.

rhagor o bwerdai niwcLEAR rhag bod yn or-ddibynnol ar ewyllys da y glowyr ac er mwyn porthi'r gyfundrefn gyfalafol ganolog sydd ohoni. Mae'r diwydiant niwcLEAR wedi magu momentwm aruthrol a chanddo lobi cryf yn y senedd. Ac wrth reswm rhaid wrth arfau niwcLEAR i amddiffyn y *status quo*.

Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw bod y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan ac arbenigwyr y diwydiant niwcLEAR yn ymdrechu'n galed yn awr i argyhoeddi cynghorwyr lleol o ddiniweidrwydd gweithgareddau niwcLEAR. A chan fod y fath ddiffyg gwaith yn wynebu Cymru y dyddiau hyn, mae arwyddion eisoes fod yr Undebau Llafur yn mynd i bwysio am ragor o bwerdai niwcLEAR yma. Ond cyflogaeth dros dro yn unig a rydd cynlluniau o'r fath - mae diffyg gwaith ym Môn cyn waethed ag erioed! Fe ddywed Mr Clifford Chadwick, Prif Swyddog Cynllunio Gwynedd, y byddai tua 4,000 allan o waith yma ar ôl codi dwy orsaf arall. Nifer o ddiwydiannau bach sydd arnom eu hangen yma. Ni ddaw dim lles i Gymru o'r anghenfilod mawr yma - ac nid dyna pahan y gosodir hwy yma chwaith.

Heblaw, a oes arnom ni angen rhagor o bwerdai? Dywed adroddiad grŵp ymchwil o Gaergrawnt na fydd bwlch ynni erbyn diwedd y ganrif. Ac y mae Adroddiad Flowers hefyd yn mynegi amheuaeth ar y pwnc. Mae Cymru heddiw yn cynhyrchu mwy na'i hangen o drydan a Phrydain at ei gilydd yn cynhyrchu ei hangen. Ac yn ôl pob golwg, nid yw'r boblogaeth yn mynd i gynyddu llawer.

Wrth reswm, mae angen mawr cynilo er mwyn diogelu cyflenwadau o ynni at y dyfodol. Ond peidied neb â meddwl bod ynni niwcLEAR yn mynd i arbed llawer o olew. Dim ond 14 y cant o'n trydan a gynhyrchir gan olew a gellid arbed hynny trwy ddarbodaeth. Twymo, y diwydiant cemegol ac yn arbennig trafniadaeth

sy'n defnyddio'r olew a gellid arbed llawer o hwnnw hefyd trwy ddarbodaeth. Mae gwastraff yn rhemp ym Mhrydain.

Yn ôl Adroddiad y Sefydliad Rhyngwladol ar yr Amgylchedd a Datblygiad, gellid treblu cyfoeth Prydain heb ddim mymryn mwy o ynni. Cadarnheir hyn gan wledydd bach Ewrop. Fel enghraifft, mae'r cynnyrch cenedlaethol y pen o'r boblogaeth yn Sweden ddwywaith yr hyn yw ym Mhrydain ac fe wneir hynny ar lawer iawn lai o ynni nag a ddefnyddir yma.

Mae modd byw o fewn ein hadnoddau, a byw'n dda; ond ddim o dan y gyfundrefn bresennol. Mae nifer o wyddonwyr wedi rhybuddio bod yn rhaid cyfundrefnu popeth ar raddfa lai os yw gwareiddiad i oroesi; mewn gair, datganoli. Dim ond helynt sy'n deillio o'r cyfundrefnau mawr - rheibio adnoddau'r ddaear, llygredd a rhyfeloedd. Mae cymunedau bach yn medru trefnu pethau'n amgenach; maen nhw'n fwy effeithiol ym mhob gweithgaredd, gan gynnwys cynhyrchu pŵer. Mae rhai o wledydd bach Ewrop wedi ymrwnged â phŵer niwcLEAR - nid oes arnynt ei angen i bwrpasau sifil na milwrol. Ac nid oes ar Gymru angen pŵer niwcLEAR na'r gwastraff y mae'n ei gynhyrchu.

I ddyfynnu Adroddiad Flowers eto, dywedir na ddylid ehangu dim ar y rhaglen niwcLEAR nes y llwyddir i ddatrys problem y gwastraff. Ond a oes datrys?

Mi afi ymhellach. Mi ddywedaf yn gwbl ddigymrodded na fedr gwareiddiad obeithio goroesi heb wadu'n llwyr bob defnydd o dechnoleg niwcLEAR.

LLONGYFARCHIADAU i John Evans (Joni'r lard), Deiniolen am ennill tlws y gadair yn Eisteddfod Marianglas, Môn.

DIOGELU SEIONT

Y mae'n bosibl y bydd yr Amgueddfa gyda'r llong fwd Seiont II yn ganolbwynt iddi ar agor yng Nghaernarfon erbyn mis Ebrill eleni.

Dyna'r addewid a gafwyd yn dilyn cyfarfod o Gymdeithas Diogelu'r Seiont yr wythnos diwethaf pryd y cadarnhawyd fod Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi prynu'r long am £8,000 gan Ymddiriedolwr Harbwr Caernarfon.

Angorir y llong yn Noc Victoria ac y mae'r ymddiriedolaeth yn rhentu'r hen "ddedws" - y marwdwy - i'r gymdeithas drefnu arddangosfeydd ynddo.

Dywedodd Ysgrifennydd y Gymdeithas, Mr Frank Jones, Foelas, Tregarth, a lansiodd y cynllun gyda gŵr busnes o'r dref, Mr Fred Whitehead, i ddiogelu'r llong a'i chadw yng Nghaernarfon, mai'r cam nesaf fydd sicrhau digon o wirfoddolwyr i sicrhau llwyddiant y fenter.

Nid yn unig bydd angen gwirfoddolwyr i drwsio a thwtio'r llong ond hefyd i wneud yr

adeilad yn barod ac i fod yn bresennol wedyn i'w gwarchod pan fyddont yn agored i'r cyhoedd ymwled â hwy.

Gobeithir y bydd hynny fis Ebrill.

Ychwanegodd Mr Jones fod croeso i unrhyw un ymuno â'r gymdeithas dim ond talu'r tanysgirifiad blynyddol o £2.

Dangoswyd diddordeb yn y fenter hon mewn sawl rhan o Brydain a bu rhai sy'n ymddiddori mewn llongau a pheriannau ager o cyn belled a Clyde yn yr Alban yn gweld y llong.

Y mae cymdeithas yn Lloegr wedi addo cymorth ymarferol i atgyweirio'r llong.

"Ond yn ogystal â'r gwaith hwn yr ydym hefyd yn chwilio am bethau diddorol i'w harddangos yn yr amgueddfa," meddai Mr Jones, "a byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrth unrhyw un sydd ganddynt bethau yn ymwneud â'r Fenai a'i hanes - hen luniau neu ddogfennau neu gelfi diddorol. Gallant eu rhoi am byth neu eu benthyca i'r Gymdeithas," meddai.

COFIO DEINIOLLEN - WAUN GYNFI

Parodd cwestiwn y Parch Terry Thomas ynglŷn â Chofio Deiniolen: 'Beth am heddiw? Ai mieri lle bu mawredd?' - i mi ail ddarllen Hanes Waen Cynfi gan un yn galw ei hun yn Ioan. Traethawd ydyw a anfonwyd i Gystadleuaeth Llenyddol Deiniolen Nadolig 1867. Yn y rhagymadrodd dywed yr awdur na chafodd y wobwr - "bod y beirniad wedi ei farnu yn anheilwng am ei fod heb grybwyll yr Ysgol Sabothol! Yn y traethawd gyhoeddwyd mae yr awdur wedi cywiro y nam, ac mae yr adran honno yn rhoi ffigurau diddorol iawn am Addoldai ac Ysgolion y Waun oedd ym mhlwyd Llanddeiniolen yn ogystal â'r rheiny oedd ym mhlwyf Llandygai y pryd hynny. Dyma nhw:

Llanddeiniolen	Adeiladau	Aelodau (oddeutu)	Ysgolion Sabothol (oddeutu)
Ebeneser	1823	300	312
Cefnwaen	1838	203	354
Llandinorwig	1857	60	150
Tabernacl	1862	35	60
Macpela	1844	215	255
(Capel y Gladdfa)			
Disgwylfa	1864		
Cyfanswm		813	1131

Plwyf Llandygai

Penuel	24	30
Amana	70	90
Hermon	140	180
Cyfanswm	234	300

Ysgoldai

Yr Ysgol Frytanaid (1855)	
Bechgyn	130
Genethod	208
Cyfanswm	338

Gweinidogion yn y Waen yn bresennol: 4
Pregethwyr yn y Waen: 8

Ysgol yr Eglwys

(Ysgol Uchaf neu Y Garnedd) (1856) Plant 144

Cyfanrif plant dan addysg 482.

Yna mae'r awdur yn gwneud y sylw hwn ynglŷn â'r ysgolion a'r plant: "mor fanteisiol ydyw y rhai hyn i'r oes sydd yn codi, a'r oesau a ddaw, i gynhyrchu neu feithrin, ac ychwanegu eu dysg a'u gwybodaeth. Gresyn na wnai yr ieuencid iawn ddefnydd ohonynt yn lle treulio eu horiau hamddenol ar y croesffyrdd, yn feibion a merched, na ddichon braidd i wan hen neu wan ieuanc fyned trwyddynt. Y maent yn fwy difoes yn hyn na'r ceffyl a'r asyn; fe gilia y rhai hynny o'r neilltu i roddi lle i'r teithwyr i fyned ymlaen heibio iddynt, ond ni wna y segurwyr a'r segur-wragedd uchod hynny."

"Mieri ymysg mawredd" yn 1867. Ac mae'r flwyddyn yna yn flwyddyn ddiddorol. Roedd eisoes wedi cerdded ymhell i "Ganrif y Chwarelwr" - canrif fawr, ac nid oedd ond rhyw chwe blynedd ar ôl Diwygiad Mawr 1859 oedd wedi cael dylanwad mawr ar yr ardal. Dyma ddywed William Morris, Bron Fuches, Dinorwig am 1859: Awst 22: Llefaru grymus heno yn Dinorwig, Ysgoldy Cefnwaen, a Sardis gan ddynion dan ddylanwad y Diwygiad. Awst 24: I'r Society heno yn Dinorwig. Awst 25: Heno i Ebeneser a Chefnywaen gyda Capt. Wilson Roberts, Bron Elidir, i wrando a gweled y Diwygiad. Medi 1: Trof fawr yn ymgyfarfod i weddio ar ochr yr Elidir.

Mieri ymysg y mawredd yn 1867. Ond canrif cynnydd y mawredd ar

draul y mieri fu Canrif y Chwarelwr nes cyrraedd yr uchafbwynt yn hanner cyntaf y ganrif hon a'r cyfnod y mae'r Parch. Terry Thomas yn sôn amdano. Gobeithiaf nad oes awgrym yn ei gwestiwn - "Beth am heddiw? Ai mieri lle bu mawredd?" - bod y mieri unwaith eto yn cael y llaw uchaf. Na ato Duw. Aberthu ac ymdrechu am rywbeth gwell i'n disgynyddion wnaeth y cewri sydd a'u llwch ym mynwentydd y plwyf. Nefoedd i'w heneidiau.

Oes rhywun a wŷr pwy oedd 'Ioan'? Tybed fyddai'n bosib i Wasg Gwynedd, os nad oes gan rywun hawlfraint iddo, gyhoeddi argraffiad newydd o'r traethawd?

H. Thomas, (Llanor)

OSMOND W. SHAW



Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio
BWLCH UCHAF

DEINIOLLEN

Ffôn Llanberis 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



ER COF AM 'PETE'

Tydwi'n ymddiheuro dim am roddi'r golofn y mis hwn er cof am y cyfaill ffyddlonaf fu gen i erioed.

'Roeddwn i'n sylweddoli ers peth amser na fyddai o efo fi'n hir, ond 'roedd hi'n anodd iawn ffarwelio efo fo ar ben y grisiau fore Gwener diwethaf, a gwybod na fyddai yno i'm croesawu a'i lyfiad pan ddown adre o'r ysgol. Do daeth gyrfa Pete - (neu i roi iddo ei enw llawn - Pitar Griffith) i ben.

Mwngral du oedd Pete, ond pedigri o fwngral a'r ffyddlonaf a roddodd gyfarthiad erioed. Mae'n wir i mi ei geryddu droeon, am iddo fynnu fy nilyn i'r capel ar fore Sul, ac i seiat o natur arall ar nos Sadwrn - ond ni sylciodd Pete 'rioed.

Sôn am gapel, fe gafodd yntau'r fraint o wneud ei ffordd i Sêr fawr Bethel un bore Sul, pan agorodd hen wag o gyfaill i mi, y drws iddo, a'i hel i mewn yn swm yr emyn gynta.

Pan fyddai cariad yn galw, fe ai yntau ar ei shift nos, a bum ar fy nhraed sawl noson yn ei ddsigwyl adre o'i garwriaethau. Cfodd sawl peltan am gyrraedd adre yn oriau mân y bore, yn wlyb diferol, gan ysgwyd diferion glaw Noson garu yn gawod ar y carped. Ond er y peltio a'r dwdio - ddaliodd o'rioed ddig yn fy erbyn.

Yn wir, rhaid i mi gyfadde, mai dim ond ar yr adegau hynny pan fyddai cariad yn galw y byddai Pete yn anufudd. Ni fyddai holl siocled y greadigaeth yn ddigonol i'w gadw rhwng muriau Crud-yr-awen ar y nosweithiau hynny., Oes, mae 'na le gwag yma hebdo heno.

Bu'n fy nisgwyl adre o ddwsinau o Eisteddfoda hyd oriau mân y bore, a'i lyfiad o groeso yn fy nerbyn bob tro. Fe eisteddodd oriau mewn car tu allan i gapel a chae ffwtbol yn hollol ddi-regnach.

Unwaith 'rioed y bu iddo ddangos ei ddannedd i mi a bygwth fy mrathu, a diffyg adnabyddiaeth ohonof a fu'n gyfrifol am hynny. Bum mor ffôl a mynd i'r lle trin gwallt - *His and Hers* i newid steil y mop blêr oedd gen i. Pan agorais ddrws y car ar fy 'newydd wedd' fe gythorodd Pete i'r 'dyn diarth' oedd yn ddigon hy i fentro i gar ei feistr. Chwarae teg i Pitar, gwneud ei ddyletswydd oedd o fel pob ci gwerth ei halen.

'Roedd o'n edrych ymlaen bob bore at ei blatiad o *Corn Flakes* ac fe lowciodd domenydd o gynnwys tuniau *Pal*. Fe gododd wrychyn holl gathod y gymdogaeth, a fe ymunodd mewn cân â mi ar ambell i nos Sadwrn. 'Roedd o'n gwybod yn iawn pa amser y deawn adre o'r ysgol, ac 'roedd o'n y lôn o flaen y tŷ yn fy nisgwyl bron bob dydd. 'Roedd o'n deall hefyd bod dydd Sadwrn yn wahanol i ddyddiau eraill yr wythnos, ac edrychai ymlaen at gael ei reid wythnosol yn y car.

Fe gafodd yntau ei gyfran o helyntion bywyd. Bu mor hy â herio lori unwaith. Bu hyn yn brofiad poenus iddo a fedrodd o ddim

ysgwyd ei gynffon fel pob ci arall ar ôl y ddamwain honno - ond 'doedd ei greoso fo damaid llai. Dro arall fe'i llarpiwyd yn ddi-drugaredd gan gang o gŵn, ac onibai i Myra weini arno a'i atgyfnerthu â thropyn o wisgi bob hyn a hyn, mae'n bur debyg y byddai wedi ymadael â'r fuchedd hon flynyddoedd ynghynt. 'Roedd y ffariar wedi rhoi'r ffidil yn y to pan welodd o'i goren o'n hongian ar ôl i Wili Morgan (corgi dros ffordd) a'i gang ymosod arno.

'Doedd o ddim yn ti-total. Arferai ddod efo fi i'r Seiat nos Sadwrn am gyfnod, ond bu'n hogyn drwg a bu'n rhaid ei ddiarddel, am iddo adael ôl ei ddannedd ar fraich Bobi Gors Bach, pan geisiodd hwnnw fynd a fy nglas gwag oddi ar y bwrdd. Fu Pete ddim yn diota wedyn.

Enillodd o erioed enwogrwydd. wyddai o ddim fod Cryffts mewn bod. Chymerai o ddim sylw o ddoniau Lassie ar y teledu, a 'doedd o ddim yn steddfodwr pybyr fel Benji a Wili Pritchard 'chwaith.

unwaith erioed y mentrodd o i'r brifwyl, ac mi brotestiodd yn hallt yno yn ystod cystadleuaeth yr unawd soprano, a bu'n rhaid ei gartio allan mor sydyn ag y daeth o i mewn drwy ddrws cefn y Pafiliwn. Wn i ddim be fyddai'r canlyniad petai o a Wili Pritchard wedi dod wyneb yn wyneb yn ystafell y Wasg y prynhawn hwnnw yn 'Steddfod Rhuthun - y 'dog-fight' gynta yn hanes y Brifwyl, reit siŵr.

Unwaith 'rioed y mentrais i fynd ag o i gae p7el-droed Bangor hefyd. Ond dipyn o fandal oedd Pete a 'doedd byw na marw na châl fynd ar y cae i ddangos ei ddawn efo'r bêl, enu i ddangos ei brotest i'r reffari.

Oes, mae 'na le gwâg yma hebdo, - lle hiraethus o wag, ei blât o wedi diflannu o'r gegin, a'i wely o ben y grisiau, a'i gyfarthiad wedi distewi am byth.

Yr ungi rai sy'n gorfoleddu fod dyddiau Pitar Griffith wedi dod i ben yw cathod y gymdogaeth 'ma - 'roedd Pete yn gythral am gath.

Ys gwn i oes 'n nefoedd i gathod a chwn. Os oes mae Pete oherwydd ei ffyddlondeb i'w feistr yn haeddu cael mynediad yno. Ac os oes cathod yno, fydd hi ddim yn nefoedd iddyn nhw bellach ar ôl i Pete gyrraedd yno.

Diolch Pete am dy gwmni - mi wnest bopeth ond siarad efo fi - dos i dy wely rŵan.

Diolch i'r Parchedig Terry Thomas ac i Mrs Mary Lloyd Williams am anfon cerddi. Cawn gyfle i'w cyhoeddi yn y rhifyn nesa'.

CAPEL MAES Y DREF

Tey
GR

Chwith gennyf glywed am gau cpale Maes y Dref, ond teimlaf fod ei farw yn hollol naturiol, a diolch i'r ychydig dewr a gadwodd y drysau ar agor cyhyd.

Yno y tyfais i fynd - fy meddyddio, fy nerbyn yn gyflawn aelod, ac wedyn priodi.

Gwnes ychydig o waith ymchwil i'r modd y daeth i fodolaeth. Tueddai'r ardal at addysg yn gynnar iawn. Bu J. Jones o Ddinbych yn cadw ysgol yn Celyn ym 1782, a daeth Edward Thomas o Lanberis ym 1815. Torrodd diwygiad allan yn ysgol Roland Abran (athro a phregethwr) Brynteg ym 1807. Daeth hyn a llawer o chwaraeon twmpath i ben.

Cymhellwyd y Parch David Griffith, Bethel i bregethu yn awr ac eilwaith yn Nhan y beren, fel olynydd i'r Parch William Hughes, Brynbeddau. Braidd yn anghyfleus a phell oedd Tan y beren, a chafwyd lle yng Nghlwt y bont (sy'n hynach pentref nag Ebeneser). Siân Edwards (modryb Siân i bawb) Glanrhyd a agorodd ei drws, a derbynai bunt y flwyddyn am roi benthyg ei thŷ. O 1822 i 1823 y bu hynny, a buwyd yn cynnal gwasanaethau a phregethu yno am flwyddyn a chwarter. Ymunodd Dafydd Elis, Codwr Canu, "cwt o gapel" Ysgoldy, a chynulleidfau Glan Rhyd. Pan bregethai'r Parch David Griffith yno, byddai'r tŷ yn orlawn, a'r cae chwarae yn wag. Efallai nad oedd Glanrhyd ymhell o Faes y Dref, oee, myaf tebyg, yn gae chwarae ar y

pryd. Tri champ fawr y fro yn y cae chwarae oedd Cocyn Saethu, Curo Bandi a Choetio.

Mae hen stori i Siân guddio yn y simdee, pan glywodd am Seiat ar ôl y bregeth, ond, o ddeall beth oedd, arhosodd hithau ynddo. I Glanrhyd y canodd Deiniolfryn:

Er i ddrylliog dylllog do
Duw ei hun fu dano."

Lluosogai rhif y gwrandawyr, ac aeth y lle yn rhy fach, a chwiliwyd am le i godi capel. Methwyd a chael neb i werthu tir, yn nes na Chaeau Uchaf. Yno yr agorwyd y capel annibynwyr cyntaf ym 1823 (cyn bod y pentref) a galwd ef yn Ebeneser a'r pentre wedyn. Cawsant y Parch David Griffith yn weinidog, a'r Parch Thomas Edwards ar ei ôl o 1932-1863) Bu ef yn cynnal 'Ysgol Garpiog' yng Nghaerrhedyn am un o'r gloch bob Sul i'r plant tlawd.

Ym 1878 yr adeiladwyd capel Maes y Dref ar brydles o 99 o flynyddoedd, am ardreth o gini y flwyddyn. Cyfanswm y draul oedd £1,100. Capel Eban yn gyfrifol am £800, a Maes y Dref am £300

Y blaenoriaid cyntaf oedd: Evan Hughes, Clwt y bont, William Jones, Mynaddwyn, Brynteg. Morgan Williams, Ciali (California Terrace),



Yr Athro Robert Williams (Tad Elin Lisi, a thaid Bobby a John)

Rhes ôl: Maggie Thomas, Clwt y bont, (Tai ger Helen Villa) Willi Ffoulk, Quarry, Annie Thomas, Clwt y bont (chwaer Maggie); Buddug I. Griffiths, Bryndu. Rhes flaen: T. Elwyn Griffith, Bryndu. Aled Gwyn Griffith, Bryndu. Nesta Ffoulk, Quarry.

Tynnwyd y llun hwn yn ystod y Rhyfel Byd cyntaf efallai 1916 neu 1917. Rhai o blant yr Ysgol Sul a'u hathro.

AT BOB HANESYDD LLEOL

Mae Adran Efyddiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor ac Amgueddfa Werin, Sain Ffagan yn cyd-drefnu cwrs preswyl ymarferol i hyfforddi pobl sydd â diddordeb mewn casglu a chofnodi hanes a thraddodiadau llafar. Mae tair elfen yn y cwrs, sef:

a) Darlithiau ar agweddau hanes llafar a thechnegau casglu a recordio'r deunydd.

b) Sesiynau ymarferol yn recordio unigolion yn y maes. Trefnir fod y gwaith ymarferol yn cael ei wneud gyda thrigolion Dyffryn Ogwen.

c) Cylchoedd trafod pryd y beirnedir y gwaith ymarferol o safbwynt techneg a chynnwys gan arbenigwyr o'r Amgueddfa Werin.

Yr arbenigwyr sy'n cynnal y cwrs yw Trefor Owen, Vincent Phillips, a Robin Gwynndaf o'r Amgueddfa Werin a John Elwyn Hughes o Fethesda.

Cynhelir y cwrs yn Neuadd Môn, Coleg y Normal, Bangor o Fai 23-27, 1980. Ceir manylion pellach am y cwrs a'i gynnwys gan y Cyfarwyddwr, Adran Efyddiau Allanol, C.P.G.C., Bangor. Bangor 51151. Est. 494.

nged gan Mrs BUDDUG J. FFITHS, Llanfair Caereinion

Thomas Lewis, Ciali a John Edwards, Ciali. Ymadawodd llawer o gapel Eban i Faes y dref. Pan feddyliwch am yr holl dai oedd yn agos at y lle, fel Tai Felin Sarn a Galt Sarn a'r Ciali, a Chlwt y bont a'r Terrace, heb sôn am y tyddynod o amgylch, ymhell ac agos - yr oedd gwir angen am gapel yma, ond wrth gwrs, elai rhai o enwadaeth arall heibio'i ddrws.

Ym 1904-5 daeth cynulleidfa Eban i gyd i addoli ym Maes y dref - tra'r oeddynt yn adnewyddu Capel Eban. Y Parch Dyfnallt Owen ATS oedd y gweinidog. Daeth adfywiad rhyfedd i'r gynulleidfa. Ni ddefnyddid offeryn, na llyfrau i ganu, - ond canu cof - canu calon ac ysbryd. Cilioedd crefydd yr ordinadau ffurfiol, a darfu bri y bregeth. Ymwithai bechgyn ar draws ei gilydd at Orsedd Gras. Byddai tua 50-60 yn y Cwrdd Gweddi pobl ifanc ar fore Sul. Yr oedd dosbarth Dysgu Cymraeg llewyrchus yno hefyd (nid i Saeson - mi wn).

Ni wn pwy oedd gweinidog cyntaf Maes y dref, ond cofiaf ef yn unedig â Bosra a'r Parch Isaac Jones (Jôs Maesdre) yn wienidog arnynt. Glasiad o laeth enwyn a ewyllysiai ar ôl dod i'n gweld i Fryndu. Daeth y Parch H. Albert Morgan yn weinidog ar Eban a Maes y dref ym 1914 a phregethodd y Parch Isaac Jones yn ei gyfarfod sefydlu.

Torrodd y rhyfel allan, a gorfu i'r dynion - y rhan fwyaf ohonynt, fynd i'r fyddin, neu i waith ammunition a

chaeodd y chwarel. Y merched a'r ifanc a'r hynafgwyr a gadwodd y capel i fynd. Ffyddlon iawn a charedig oedd Robert Williams Tan y bryn yn yr Ysgol Sul a'r Gobeithlu; a da gennyf fod y darlun yma o'i ddosbarth yn fy meddiant. (Ond lle 'roedd y plant eraill y diwrnod pwysig hwnnw?)

Wrth adeiladu Maes y dref, edrychai'r arloeswyr i'r dyfodol, gan roi tai ffenestr uwch ben y porth fel y gallasant godi llofft (galari) yn y pen yna o'r capel, apn ai'r llawr yn rhy fach i'w cynnal, ond ni ddaeth eu breuddwyd i ben.

Er hynny gallaf gofio'r capel yn rolawn doreon, fel pan bregethodd y Parch John Williams, Brynsiencyn yno yn ei siwt sowldiwr. Hefyd ar achlysur Cyfarfod Coffa yn ystod y rhyfel pan rwydd rhuban du ar bob polyn lamp. Llifai tyrfaoedd yno i'r Cyfarfodydd Pregethu wrth gwrs, a byddai'n rhaid bod yn gynnar i gael lle pan fyddai rihysal undebol yno at y Gymanfa (Anniobynnwyr wrth gwrs). Byddai'n rhwydd lawn pan gynhelid Cyfarfod Cystadleuol o orffen tymor y Penny Readings neu'r Gobeithlu.

Ni ymhelaethaf ar yr hanes, canys y mae Mr John D. Evans (Joni Iard) wedi dweud llawer yn ei lyfrau a'i ysgrifau a'i farddoniaeth a thalaf deyrnged iddo, a dymunaf lwyddiant a rhwyddineb i'r Ganolfan Newydd. o.n. O Waith Deiniolfryn (Ewyllys i'm tad) y dyfynais y manylion a geir yn yr erthygl yma.



Rhes ôl: Griffiths, Cae'r Rhedyn, Griffith, Tan yr Henffordd. Robert John Hughes, Terrace, Michael Pritchard a aeth i'r America, John Evan Griffith, Bryndu. Richard Harries, 'Refail.

Rhes flaen: Robert Thomas, Llwyn Cogau; Richard Hughes, Tŷ Newydd Terrace; John Edwards, Ciali; Robert Thomas, Clwt y Bont (ger Helen Villa)

Ymddengys hwn fel Dosbarth Ysgol Sul y dynion. 'Rwyf bron yn sicr iddo gael ei dynnu cyn y rhyfel 1914-1918

LLYFRAU

Cyhoeddwyd y ddau lyfr a ganlyn dan nawddogaeth Cynlluniau Llyfrau'r Cyd-bwyllgor Addysg.

Trwy Awyr Wenfflam - J. Selwyn Lloyd. Cyhoeddwyd - Gwasg Gomer. Pris: £1.75
Y Gymraeg o'n Cwmpas - Iolo M. Ll Walters. Cyhoeddwyd - Gwasg y Dref Wen. Pris 85c.

Y Llewod a'r Smyglwyr - Rhif 22 yng nghyfres y Llewod -

Dafydd Parri. Cyhoeddwyd - Y Lolfa. Pris 85c.

Bwyd y Byd. 60 risêt gan Elsi Wyn Jones. 60 tudalen o risetau o wledydd y byd - rhywbeth i bawb. Pris 70c.

Hael ar y Wlad. Llyfr ar Ganu Gwlad a thaith lfor Hael i Nashville. Pris £1.

O'i Ben i'w gynffon. Chwedlau a ffeithiau am lynnoedd Meirion. - Dafydd Guto Ifan. Pris £1.20. Clawr meddal. £2.00 Clawr Caled.

Sgrech '79. Blwyddlyfr Canu Pop Cymraeg. £1.00

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

SPRING CLEANING 1920

Dyma ddarlun o'r "glanhau'r gwanwyn" erstatwm neu'r 'spring cleaning' fel y gelwid ef gan bawb.

Un bore yn Ebrill dihunwyd fi'n syn Gan dwrw rhyfeddaf fel sŵn daear-gryn:

'Roedd sŵn y cadeiriau yn gwichian fel moch

A minnau a waeddais, "Beth yw hi o'r gloch?"

Ond wedi fy nghlywed, daeth Nel yn ddioed,

Yn finig ei thafod, a buan ei throed, Ac meddai, "Rwy'n dechrau'r Spring Cleaning, côd!"

A minnau ymholais beth ydoedd yn bod!

"Spring Cleaning"! a thuchan gan rwbio fy ael:

Ow! nid ydoedd gorchudd fy ffenestr ar gael!

Wel, chwilio am ddillad y bŵm bron am awr

Gan dybio fod brecwa t ar wyndra'r bwrdd mawr:

Ond O! mul oedd hwnnw, dan ben heb ei fath

O wŷdd yr hyll dryblith diflannodd y gath!

A Mot, fy nghi hoffus, frawychwyd yn awr,

Cans gwelwn ei gynffon o dan y cloc mawr.

'Roedd pryfed yn dianc nas gwyddwn i ble,

A llawer hen gopyn yn wylo am we.

'Roedd Nel mor anhebyg â cheiniog i bunt

I'r feinir anwylaf briodais i gynt:

Hen sach oedd ei chostiwm, mi gymraf fy llw,

A'i hwyneb cyn ddued â thalcen Hindŵ!

Trwy'r ffenestr canfyddwn ar lawnt ger y tŷ,

Gadeiriau, matresi, a hen wely plu: Mi dybiais fod Nel am wneud ocsiwn

yn siŵr,

A myned ar drafael a gadael ei gŵr. Pa beth ddaeth o'r "hangings" oe'nt frodwaith mor gain?

Ow! Gwelais eu hysbryd ar ben y clawdd drain!

Aeth llun Modryb Begw yn deilchion i'r baw,

Wrth symud y dresal yn nes i'r pen draw.

Am Almanac Gladstone ni chymrw'n i bunt,

Ond gwelais o'n sgyrion yn nannedd y gwynt!

Ond beth ydoedd hynny Ryddfrydwyr mwyn, glân,

I weled Lloyd George yn rhoi'r simdde ar dân!

'Rôl stwffio i'm llogell fy nghinio pur sych,

A dweud wrth ryw flacan "F'anwylid bydd wych!"

Cychwynnais i'r chwarel trwy'r awel rydd, fad,

O fellt a tharanau Y Gwanwyn-lanhad.

Fe synnais pan ddeuthum yn ôl gyda'r nos,

Weld Nel yn groesawus, yn lân ac yn dlos:

Y tŷ a newidiwyd bob hoelen a rhan, Er porthi mympwyon a chwaeth Elin Ann,

'Doedd ball ar fy Elin yn canmol ei hun,

Yn nodrefn pob 'stafell hi welai ei llun,

Ond druan o'i phriod, yn llewys fy nghrys,

Ces dalu y costau trwy lafur a chwys, A bodlon a fyddwn pe gwnâi hyn o gân

Arddangos gwrthuni y blwyddol ddydd glân:

A pheri i'r gwragedd oll gadw eu tai Yn lân drwy y flwyddyn, nid Ebrill a Mai.

Glan Rhyddallt

DINORWIG

Y GYMDEITHAS UNDEBOL - Nos Iau, Chwefror 7 yn y Ganolfan cafwyd darlith ddiddorol gan y Parch J. Alun Roberts, Abergale ar 'Ddyddiaduron yr Hen Of.' Cyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau a llywyddwyd y cyfarfod gan Mr O.R. Williams. Talwyd diolch gan y Parch lfor R. Williams, CYDYMDEIMLIR 8 Â Mrs Mair Jones, Plas Amlwch gynt o 9 Bro Elidir, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam ym Mhlas Gwilym, Penygroes.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD - Mawrth 7, 1980.

Gwnaed trefniadau ar gyfer cynnal y cyfarfod gweddi lleol ynglŷn â'r uchod ar Mawrth 7. Fe'i cynhelir yn Eglwys St. Mair, Dinorwig, am ddau o'r gloch. Croeso cynnes i bob chwaer.

DIOLCH - Dymuna Eric I. Williams, Tŷ Capel, Dinorwig, a Muriel M. Roberts, 22 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, ddiolch yn gynnes i berthnasau a chyfeillion am y dymuniadau da a'r anrhegion gwerthfawr a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddïad.

CYDYMDEIMLWN - Â Mr a Mrs Evan B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, a'r cysylltiadau teuluol, ym marw chwaer Mrs Roberts, yn Rhyd-ddu.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



HEN WR Y GORS

Ail-gydiodd Huw Davies yn y trosol a'i osod ym mhen arall y llechfaen. Rhoes holl nerth ei drigain mlynedd y tu ôl iddo a gwrthiodd. Teimlodd y llechfaen yn rhoi ychydig. Bu wrth i fel hyn ers bron i hanner awr, a dechreuai deimlo'r staen yn dweud arno. 'Doedd o ddim wedi medru symud un o'r lelchfeini eto, ac yr oedd gryn hanner dwsin ohonynt yno beth bynnag. 'Roedd yn dechrau difaru iddo addo gwneud y gwaith i'r Cynrol Morran yna. Petai'n gwybod cymaint o waith oedd 'na i symud y llechi, fyddai o ddim wedi dechrau am bris yn y byd. Ond dyna fo, 'roedd o wedi rhoi ei air; a'r Cynrol yntau wedi addo digon o arian i'w gadw mewn pres baco am rai blynnyddoedd.

Ymaflodd yng nghoes y gaib a dechrau ceibio rhyw ychydig o gwmpas y rhan o'r lelchfaen oedd i'w gweld. Gwaith llafurus oedd ceibio'r clai caled o gwmpas y llechi a ffurfiai sylfaen y ffynnon, ond gwyddai Huw Davies y byddai'r gwaith yn mynd yn galetach po isaf yn y byd y tyllai. 'Roed y sylfaen llechi wedi bod yma ers cantoedd. Pa obaith oedd ganddo i'w symud o fewn rhyw ychydig oriau? Ffurfiodd dafnau o chwys ar ei dalcen ac ar ei wegil. Tynnodd hances boced a sychu'r gwlybaniaeth cynnes oddi ar ei wegil. Cafodd y teimlad annifyr fod rhywun yn ei wyllo. Ni wyddai pam, ond rhedodd iâs oer i lawr ei gefn. Byddai'r hen wraig, ei fam, yn dweud bob amser fod rhywbeth yn cerdded dros ei bedd pan gâi ias tebyg, ond 'doedd Huw Davies ddim yn credu mewn rhyw ofergoel felly. Eto'i gyd, 'roedd o'n teimlo'n reit annifyr wrth droi i weld pwy oedd yn ei wyllo.

"Cael trafferth 'machgen i?" 'Roedd yr hen wr a ofynnodd y cwestiwn iddo yn pwyso ar ei ffon ar bwys y llwybr a arweiniai o'r gors yn ôl am Benisarwaen. "Cael trafferth wnei di, wsti," meddai unwaith eto, cyn i Huw Davies gael siawns i'w gyfarch na'i ateb.

'Doedd Huw Davies erioed wedi gweld yr hen wr o'r blaen, a theimlai'n chwithig braidd o'i glywed yn ei gyfarch fel 'machgen i'. Dim ond ei fam oedd yn fyw heddiw a'i galwai'n "fachgen", ac yr oedd yr hen wraig dros ei phump a phedwar ugain, ac yn gaeth i'w chadair ers pum mlynedd.

"Trafferth bei di o'i symud nhw," meddai'r hen wr; "ddaw dim da o'u codi nhw."

"Wel a deud y gwir wrtha chi, dydw i ddim o isio'u symud nhw, ond fod yr hen Gynrol wedi mynnu."

"Cynrol?"

"Cynrol Morran." Synnai Huw Davies nad oedd yr hen wr wedi clywed am y Cynrol. 'Roedd pawb yn yr ardal wedi bod yn sôn yn feunyddiol bron am y Cynrol dieithr a brynodd y Gors Goch rhyw fis yn ôl Wyddai neb yn iawn o ble daeth, ac er mai Saesneg a siaradi, yr oedd acen dramor i'w lais. Yn ogystal â'r Gors ei hun, 'roedd hefyd wedi prynu hen ffermdy Llain y Gors, ac yr oedd wedi bod wrthi'n brysur yn ei adnewyddu. Dyna pam yr oedd Huw Davies yn llafurio uwch y ffynnon heddiw. 'Roedd yr hen Gynrol wedi cael chwilen yn ei ben y byddai llechfeini'r ffynnon yn gwneud grât a cherrig aelwyd ardderchog yn y tŷ newydd, a Huw Davies gafodd y gwaith o'u codi a'u cario i Lain y Gors.

"Cynrol Morran". Rhoes yr hen wr bwyslais od ar yr enw, ac ysgwyd ei ben yn ddifrifol. "Cynrol Morran ddeudis ti? Marcia di ngair i, machgen i; ddaw dim da o'u symud nhw."

"I symud gân nhw, da ne' beidio," meddai Huw Davies a oedd yn un byr ei dymer ar y gorau; ac yn dechrau 'laru ar y llechi aac ar yr hen wr bellach.

Pwy oedd o tybed? Edrychodd Huw arno'n fwy manwl, a sylwodd ei fod yn gwisgo braidd yn hen ffasiwn. Het ffelt ddi-siâp am ei ben a'i chantal yn hongian yn llipa dros ei dalcen nes cuddio'r rhan fwyaf o'i wyneb mewn cysgod. Côt hir, lac o frethyn garw amdano, a darn o gortyn wedi ei rwymo am ei ganol i ddal y gôt yng nghau. 'Doedd dim posib gweld ei sgidia' oherwydd y gwellt uchel a dyfai ar hyd ochr y llwybr. Gallai oedran yr hen wr fod rhywle dros ddeg a thrigain ac yr oedd ei lais yn swnio'n hen a dieithr rywsut.

"O lle 'da chi'n dwad?" gofynnodd Huw Davies.

"O'r Waun yn wreiddiol, esti," atebodd yr hen wr, "ond yn y Gors, rydw i'n byw ers cnatodd. Ar fy ffordd yno 'ron i pan glywis i sw'n tuchan wrth yr hen ffynnon 'ma, ac aros i weld be o'dd yn bod."

"Tewch da chi: wyddwn i ddim fod gan Lisa Parri'r Gors neb yn aros efo hi."

Syndod i Huw Davies oedd fod unrhyw un mor ffôl ag aros yng nghwmni Lisa Parri, hen ferch fusneslyd yn hel cnecs am bawb a phopeth. Ac yr oedd yr hen wr yma'n aros yn Y Gors efo hi. Druan ag o.

"Ia, well!" meddai'r hen wr, "mae'n rhaid i minna fynd. Cofia di rwan, gad lonydd i'r cerrig 'na. Yna buo' nhw ac yna ma nhw i fod."

Fel yna mae hen bobl meddyliodd Huw Davies. 'Run fath yn union a'i fam. 'Roedd yn gas ganddyn nhw newid. 'Fallu y bydda ynta'r un fath ymhen rhyw bymthag mlynedd arall, os byw ac iach. Trodd ei gefn ar yr hen wr ac aeth ymlaen gyda'r gwaith. Erbyn iddo godi'r llechen gyntaf, 'roedd wedi ymladd yn llwyr, a phenderfynodd droi tuag adref. Gwyddai y byddai'n haws coid'r gweddill ar ôl y llacio a wnaeth o gwmpas y ffynnon heddiw. Cododd y trosol a'r gaib a chamu oddi wrth y ffynnon tua'r llwybr. Sylwodd nad oedd dim o ôl yr hen wr ar y llwybr er bod y ddaear yn llaith. Penderfynodd holi'r hen wraig ei fam ynglŷn â'r hen wr.

Pan gyrhaeddodd adref, 'roedd ei fam, fel arfer yn pendympian yn ei chadair wrth y tân, a'i wraig, Greta, wrthi'n gosod y bwrdd. Wedi mân

siarad, gofynnodd Huw Davies i'w fam ynglŷn â'r hen wr a welodd yn ystod y pnawn.

"Ddaru o ysgwyd llaw efo ti, machgen i?" gofynnodd ei fam.

"Naddo, siŵr iawn," atebodd Huw, gan synnu at gwestiwn mor rhyfedd. "Pam 'dach chi'n gofyn?"

"Mi welid fory," oedd unig ateb yr hen wraig, cyn cau ei llygaid a syrthio'n ôl i'w chwsg.

Y pnawn dilynol, 'doedd dim golwg o'r hen wr pan gyrhaeddodd Huw Davies at y ffynnon. Fel ac y tybiodd y diwrnod cynt, 'roedd codi y gweddill o'r llechi yn dipyn haws, ac o fewn rhyw ddwyawr, 'roedd y cwbl yn gorwedd yn daclus wrth ochr ei gilydd rhwng y ffynnon a'r llwybr. Wrth osod yr olaf o'r llechi i orwedd, daeth yr un teimlad a ddoe dros Huw. Bron na allai daeru fod rhywun yn tynnu darn o rew ar hyd ei asgwrn cefn. Gwyddai fod yr hen wr yno eto heddiw. Clywodd ef yn dweud: "Rwy'ti wedi'i tynnu nhw felly?"

Trodd Huw i'w ateb, a dychrynodd o weld y newid a ddaeth dros yr hen wr. Yr un oedd y llais, ond 'roedd y corff bellach wedi plygu'n ddau, ac yntau'n cael trafferth i aros ar ei draed er ei fod yn pwyso yn drwm ar ei ffon. Rhoddodd Huw gam ymlaen ato gan feddwl ei fod ar ddisgyn.

"Ydach hi'n iawn? Dowch i mi afael yn ych braich chi. Dowch rwan. Steddych fan'ma."

Eisteddodd yr hen wr ar ddarn o graig wrth ochr y llwybr ac anadlodd yn drwm yn hir. Yna, cododd ei fraich a sychu ei dalcen â llewys ei gôt.

"Mi fydda'i yn iawn rwan machgen i," meddai, "diolch i ti am . . ." Oeddodd yr hen wr cyn ychwanegu " . . . am bopeth." Cydiodd yn dynn â'i ddwy law ym mraich dde Huw Davies a'i gwasgu mewn arwydd o ddiolchgarwch.

Teimlodd Huw Davies ei holl gorff yn oeri a saethau o boen yn brathu ei fraich dde. Aeth ei goesau'n wan o tano, a theimlai ei hun yn llithro i'r llawr. 'Roedd yr hen wr yn parhau i ddal ei afael ynddo. Sylodd Huw Davies ar yr hen wr mewn syndod yn hytrach nac mewn ofn. Sylwodd yn ei wendid fod corff yr hen wr yn sythu, fel pe bai'n sugno nerth Huw Davies allan ohono drwy'r fraich dde. Ceisiodd godi, ond nid oedd teimlad yn ei goesau. Gollyngodd yr hen wr ei afael, a suddodd Huw

Davies yn dalp llonydd yn ôl ar y llwybr. Gallai weld yr hen wr yn gafael yn y llechi a'u gosod yn ôl o gwmpas y ffynnon. Cyn i Huw Davies lewygu, clywodd yr hen wr yn dweud:

"Yna buon nhw, ac yna ma nhw i fod. Ddaw dim da o'i symud nhw."

Ei wraig ddaeth o hyd i Huw Davies yn gorr marw ar ochr y llwybr wrth ymyl y ffynnon. 'Roedd ei fraich dde wedi crebachu a gwywo'n ddim, a'i gorff wedi mynd yn fach, fach. Gorweddai ei drosol a'i gaib yn daclus wrth ochr y ffynnon a dim ond ôl ychydig o grafu yn y clai o'i chwmpas. Wrth redeg yn ôl am y ty, sylwodd Greta ar hen wr yn cerdded ar hyd llwybr y Gors Goch a chot hir, lac o rethyn amdano.

'Doedd gan yr hen wraig, ei fam, lawr ddim i'w ddweud ddydd yr angladd, a phan ddaeth Greta'n ôl o'r fynwent 'roedd yn pendympian fel arfer wrth ochr y tân.

"Gawsoch chi gwmni?" holodd Greta.

"Mi fu hen wr y Gors yma am 'chydig ngenath i," atebodd "ond wnaeth o ddim ysgwyd llaw i gydymdeimlo 'chwaith."

"Dyna ryfadd," meddai Greta.

"Ia, ond mi welai fory," meddai'r hen wraig, "ddaw o ddim yma eto am dipyn, medda fo."

Galwodd Lisa Parri'r Gors cyn diwedd yr wythnos yn byrlymu o newyddion am farw'r Cynrol. 'Roedd o wedi ei ladd mewn tŷ yn Llundain a'r heddlu yn chwilio am y llofrudd ym mhobman. Gwrthiodd ddarn o bapur newydd i law Greta a darllenodd honno yn uchel er mwyn i'r hen wraig glywed.

"Police are looking for an elderly man of a stooping stature, last seen wearing an old felt hat and a long overcoat. Shortly before being found dead in his apartment, Colonel James Morran was seen talking with this man in an agitated manner."

When the body was discovered, the Colonel's right arm was completely withered and wasted away, and the remainder of his body had shrivelled up as if in extreme old age."

Gwenodd yr hen wraig yn ei chornel a phwyntio'i bys at Lisa Parri.

"Mi ddaw i dy weld ditha hefyd," meddai.

"Pwy dudwch?"

"Hen wr y gors, wrth gwrs."

EVANS VEHICLE BODY REPAIRS & PANEL BEATERS CLWT-Y-BONT

Ffôn: LLANBERIS 611

am drwsio
TOLCIAU, WELDIO, SPREIO, ATGYWEIRIO
wedi damwain, ac ati.

CEIR AIL-LAW AR WERTH

LLANBERIS

PRIODI – Dechrau'r mis yng nghapel Bethel priodwyd David Anthony mab ieuangaf Mrs Joan Thomas, 41 Dôl Elidir, a Sulwen, merch Mr a Mrs Evan Owen, 4 Corn Hir, Bethel.

Dymunwn longyfarch y pâr ieuanc a phob hapusrwydd i'r ddau.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Mis Ionawr, cyfarfu'r sefydliad yn y ganolfan dan gadeiryddiaeth Mrs Hannah Jones, Tawel Lan. Treuliwyd y noson yng nghwmni Mrs DilysKislaw – roedd yn adrodd hanes y blynyddoedd a fu'n byw yn Kampala, Uganda. Yn ystod y cyfarfod estynwyd cydymdeimlad â'r rhai hynny o'r aelodau oedd wedi colli rhai annwyl.

YN YR YSBYTY – Dymunwn wellhad buan i'r rhai sydd mewn ysbytai: Mrs Magi Williams, Creigle; Mrs Blodwen Morris, Blodwel, Dôl Elidir; Mr Eric Roberts, Rhes Minafon; Mr Robert Hughes, 7 Ffordd Padarn.

DOD ADRE – Da oedd deall bod Mrs Ann Pritchard, Madryn, Stryd Newton wedi gwella'n iawn, ac wedi dod adref o ysbyty Dewi Sant, Bangor.

CYDYMDEIMLAD – Dymunwn estyn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Morris, (Coed) ar golli ei chwaer, Mrs Higgins, Cwm-y-glo yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU – I Mr a Mrs Idwal Roberts, Stryd Newton am fod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd mab bach i Alan ac Eluned yn ddiweddar.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL COCH, GORFFWYSFA A PHRESWYLFA – Ionawr 21, cafwyd 'Codi Cwestiwn' gyda Mr J. Butler a Mr. Stanley Owen yn gweithredu ar y panel. Drwg gennym am absenoldeb Mrs Dilys Baylis oherwydd gwaieidd. Cafwyd noson addysgiadol iawn.

Chwefror 4. Noson ddiddorol dros ben gyda Mr Emyr Jones,

Caernarfon, yn dweud hanes Chwael Dinorwig o'r cychwyniad. Storfau trist a doniol yn cael eu hadrodd.

Chwefror 18, Y Parchedig Marcus W. Robinson, BD yn rhoddi hanes tref Caernarfon o amser y Rhufeiniaid i'r presennol, yn cael ei gynorthwyo gan Mr Ken Morris yn canu'r delyn, a Mr Gwilym Parry yn rhoddi darlenniadau. Diweddglo campus i'r tymor.

Bydd pleserdaith y Gymdeithas yn mynd i Aberystwyth ddydd Sadwrn, Mai 10. A fydd yr aelodau sydd yn bwriadu mynd i Aberystwyth cystal â rhoddi eu henwau i'r Ysgrifennydd cyn gynted ag sydd yn bosibl. Bydd cyfarfod ym mis Ebrill i wneud y trefniadau terfynol.

DIOLCH – Dymuna Mrs Ann Pritchard, Madryn, Stryd Newton, ddiolch o galon i'w chyfeillion, cymdogion a pherthnasau am bob caredigrwydd yn anrhegion a chardiau a dderbyniodd yn ystod ac ar ôl ei harhosiad yn ysbyty Dewi Sant, Bangor. Diolch o galon i bawb.


LLENG BRYDEINIG FRENHINOL LLANBERIS A'R CYLCH – Mae'r gangen yn cynyddu'n dda iawn ond mae lle eto i gyn-filwyr yn enwedig o Gwm-y-glo.

CLWB METHEDIG ERYRI – Cafodd y Clwb yma fis da yn Ionawr a'r aelodaeth yn dal ei thir er gwaethaf y tywydd. Mae llawer yn cwyno ac mae ein cyfarchion atynt, wrth i ni ddisgwyl eu gweld i gyd yma pan ddaw y tywydd yn well. Y dyddiau i'w cofio yw Mawrth 3, 10, 17, a 24. Cynhelir y cyfarfodydd yn Y Ganolfan Llanberis.

DIOLCH – Dymuna Mrs Mary B. Morris, Blodwel, Dôl Elidir, sydd ar hyn o bryd yn ysbyty Eryri, ddiolch o galon i'w pherthnasau, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd, cardiau a'u dymuniadau da.

NOSON LAWEN – Cynhelir Noson Lawen, Sadwrn, Mawrth 8 am 7.30 yng Ngwesty 'Padarn Lake' Llanberis. Bydd adloniant yng nghwmni John Ogwen a Pharti Eryri. Ceir cyw iâr mewn basged. Tocynnau £2.50 ar gael oddi wrth Ken Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis (Ffôn: 371).

FEL YR OEDD



Llun a dynnwyd gan Islwyn Jones o Gapel y Bedyddwyr Llanberis cyn i'r lle gael ei droi'n warws. Dyma'r lle y bedyddiwyd T. Rowland Hughes.

Cystadlaethau 1979 80 Cyd-bwyllgor Addysg Cymru

Cystadleuaeth Genedlaethol

Nofel gyfoes i bobl ifanc yn eu harddegau

Gwobr: £200

**Beirniad: Jane Edwards,
Harri Prichard-Jones**

Cyflwynir y deipysgrif erbyn 1 Mai 1980 at:

Yr Ysgrifennydd, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, 245 Western Avenue, Caerdydd. CF5 2YX

GWYNEDD

1. Llyfrau darllen yn cynnwys gwybodaeth fathemategol ddiddorol ar gyfer plant 8-11

HANES Y 'GWELY-DŴR' O FRYNREFAIL

Wel dyma y stori fe'i canaf yn groch 'Water Bed' wedi dyfod i lofft Cae Coch Yr holl ffordd i Gymru o Galiffornia Yn anrheg i Ken a'i wraig Patricia.

Cyn naw aeth y ddau am y gwely balwn Gobeithio yr oeddynt am ail 'Honeymoon'

Un naid a roes Ken i'r gwely fel cath Nes taflu ei wraig i'r awyr dair llath.

Gobeithio na chânt 'bynjar' i'r gwely mawr

Neu cythral o lanast fydd o'r llofft i'r llawr

A hwythau ill dau yn wlyb at eu crwyn A'r gwely'n diflannu yn chwim dan eu trwyn.

Wel digon digalon yw Patricia yn awr Dim posib cael 'cuddle' a Ken 'cysgu' ar lawr

Esboniad reit syml i hyn sydd yn siŵr 'Sea sick' ydyw Kenneth ar y gwely dŵr. gan y Bardd Cwsg.

CEUNANT

CYDYMDEIMLO – Dydd Sul, Chwefror 6 yn frawychus o sydyn bu farw Mrs Ambler, Tanhafodlas. Estynnir pob cydymdeimlad i Mr a Mrs David Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.

O'R YSBYTY – Croeso adref o'r ysbyty i Mrs M. Lloyd Jones, Hafod Owen, Mr Ifan Parry, Bodafon a Mr Glyn Jones, Arwelfa. Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r tri.

BLANCHARD-ELIS – Cyhoeddir dyweddiad Sharon, merch hynaf Mr a Mrs Irfon Elis, 7 Rhes Efrog, a Michael mab Mr a Mrs Robert Blanchard, Llythyrdy, Tan-y-coed, Llanrug. Llonyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

BRYNREFAIL

CLWB MAMAU – Bu cyfarfod yn Nhŷ Glas ar Chwefror 14, pryd daeth Mrs Pat Jones, Cae Coch i ddangos i'r aelodau sut i arlunio â brethyn (collage). Daeth â sawl enghraifft o'i gwaith ei hun ac eraill i ddangos i'r aelodau a chafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol dan ei hyfforddiant. Fe wnaed y te gan Moira Ellis a Jackie Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Shirley Roberts ac fe'i henillwyd gan Sheila Williams.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yn Nhŷ Glas ar Chwefror 21, cafwyd noson ddiffr dros ben yng nghwmni Mrs Eirlys Williams o Ddeiniolen, a roes hanes Goleg Denman, Rhydychen. Cafwyd hefyd arddangosfa o gwiltiau.

Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Pat Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs Helen Jones. Mrs Pat Jones a Mrs Betty Owen a fu'n gyfrifol am wneud y te.

GENEDIGAETH – Ar Chwefror 2, fe anwyd merch i Mrs Mair Wyn Davies, gynt o Ty'n Buarth ac sydd bellach wedi cartrefu yn 5 Stryd Thomas, Llanberis. Fe ddewiswyd yr enw Rhian Wyn ar y fechan a oedd yn pwyso 7 bwys 11 owns pan ganwyd hi yn Ysbyty Dewi Sant. Llonyfarchion i Mair a'i gŵr, ac hefyd i Mr a Mrs R.W. Evans, Ty'n Buarth am fod yn daid ac yn nain am y tro cyntaf.

Ac hefyd ar yr un diwrnod, sef Chwefror 2, fe anwyd mab i Llestyn a Leslie Griffiths, Bryn Derw Cottage.

Llonyfarchion a dymuniadau da i'r teulu, ac hefyd i Mr a Mrs W.H. Griffiths, Tros-y-Waen, (gynt o'r Llys), sydd hefyd yn dathlu'r achlysur o fod yn daid a nain am y tro cyntaf.

CLWB PEDWARUGAIN – Cafwyd cyfarfod blynyddol y clwb yn Ffestri'r Capel ar Ionawr 29, pan dderbyniwyd adroddiadau'r swyddogion am y flwyddyn 1979. Etholwyd yr un pwyllgor eto am y flwyddyn 1980, sef Mrs Pat Jones, Mrs Aubrey Roberts a Mrs Shirley Roberts, y Mri Islwyn Jones, Islwyn Williams a Dafydd Ellis.

Enillwyr mis Ionawr: Ionawr 4: 1) Sheila Williams; 2) Shirley Roberts; 3) Eleri Roberts. Ionawr 11: 1) O.J. Williams, 2) Bertie Roberts; 3) Islwyn Jones. Ionawr 16: 1) Myrddin Jones; 2) Will Hughes; 3) Betty Owen (Llwyncoed Bach). Ionawr 25: 1) Megan Jones; 2) Betty Green; 3) Mrs H.J. Jones.

NANT PERIS

CROESO ADREF – o'r ysbyty i Alan, Llys Awel ar ôl cael triniaeth i'w donsils a'i glust.

CWYNO – Mae llawer yn cwyno yn yr ardal ar hyn o bryd. Dymunwn adferiad buan i bawb a hyderwn gael eu gweld o gwmpas yn fuan.

**Wavell
Roberts
CIGYDD**
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI
Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!**

LLANRUG

DIOLCH - Dymuna Mr Myrddin Williams, Penterfyn, gydnabod yn ddiffuant garedigrwydd perthnasau, cymdogion a ffrindiau yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon ac wedi dychwelyd adref.

SEINDORF - Ar Chwefror 9 aeth aelodau hynaf y Seindorf i roi cyngerdd i aelodau Clwb Cymraeg, Bangor. Ar Chwefror 17, daeth y Seindorf yn gydradd bumed allan o ddeunaw o fandiau mewn cystadleuaeth yn Bolton. Edrychant ymlaen 'nawr at ddiwedd y mis nesaf pan fyddant yn cystadlu yn Preston. **Y GYMDEITHAS UNDEBOL** - Nos Fawrth, Chwefror 19, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar 'Mynydd' gan Mr Gwynfor Williams, Llanberis. Diolchwyddo gan Mr Ifor Williams, Gwelfryn a Mrs Jones-Evans, Bro Rhyddallt.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd ar Chwefror 12, gyda Mrs N. Lovatt yn y gadair. Y siaradwr gwadd oedd Mr R. Alun Evans o'r BBC. Cafwyd hanesion ganddo am ei waith gyda'r BBC. Yr oedd ei straeon am y Gwyddelod a'i ddynwarediad ohonynt yn werth eu clywed. Aeth ymlaen i drafod yr anawsterau ynglŷn â chyflawni gwasanaeth radio a theledu teilwng gydag adnoddau llawer rhy fach.

Cafwyd trafodaeth frwd, yn enwedig ynglŷn â safon Cymraeg cyhoeddwr ac eraill o raglenni'r BBC. Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd ar Mawrth 11 pan ddisgwylir Cangen Llangefni i ymweld â ni. Trefnir adloniant gan y ddwy gangen.

BEDYDD - Yng Nghapel Pontrhythallt fore Sul, Chwefror 17, bedyddiwyd Gareth, mab bychan Mr a Mrs Tecwyn Roberts, 15 Afon Rhos gan y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts, Annedd Wen.

MEWN YSBYTY - Dymuna ei llu cyfeillion anfon eu cofion at Mrs Jenny Williams, Penrhos sydd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Boed iddi adferiad iechyd buan.

O'R YSBYTY - Da gennym groesawu adref gyfeillion fu yn Ysbyty Môn ac Arfon - Mr Myrddin Williams, Penterfyn, ar ôl triniaeth lawfeddygol; Mrs Evans, Lloc a Mr H. Elwyn Jones, Y Fedwen. Dymunir iddynt adferiad buan i lawm iechyd. Hefyd Mrs Martha Williams, Delfryn ar ei dychweliad o Ysbyty Eryri. Pob bendith iddi hithau.

Y GOBEITHLU - Cafwyd tri chyfarfod. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Pamela White, 38 Glanffynnon; Christine Jordan, Cefn Elan; Wendy Roberts, London House; Nia Lewis, Dwyfor; Manon Llwyd Evans, Carwyn a Susan Morris, Gwenmon. Dysgwyd sol-ffa dan arweiniad Mrs Jones, Ogwen, a chymerwyd rhan mewn canu gan nifer fawr o'r plant. Dangoswyd ffilmiau gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen, gyda Mr John Williams, Gwelledfa yn cynorthwyo. Mrs Mair Jones, Ogwen oedd yn cyfeilio yn y cyfarfodydd, a diweddwyd trwy gyd-adrodd gweddi dan arweiniad y Parch. W.O. Roberts.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR - Nos lau, Chwefror 7 cafwyd Noson Coffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen. Anfonwyd cofion at y chwiriorydd oedd yn wael gartref ac yn yr ysbyty. Darllenwyd y Fantolen Ariannol gan y trysorydd, Mrs M. Jones, Ogwen. Rhoddwyd y coffi gan Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd a Mrs Dorothy Jones, Tregerin. Diolchwyd iddynt gan Mrs N.

Roberts, Annedd Wen; hi hefyd oedd y llywydd. Croesawyd Mrs Williams, Tŷ Capel i'r cyfarfod.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL, CAPEL MAWR - Nos lau, Ionawr 31 cafwyd dadl ar y testun, "A yw'r rhyddid a enillodd y ferch yn y blynyddoedd diwethaf yma yn fantais neu yn anfantais?"

Siaradwyd o blaid gan Mrs Carys Jones, Gwên-y-Wawr a Mrs Ann Llwyd Elis Jones, Pros Kairon, ac yn erbyn gan Mr Selwyn Williams, Cartref a'r Parch. W.O. Roberts. Siaradwyd ymhellach gan Mrs Myfi Roberts, Tai Plastirion, Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd, Mr J.W. Owen, Llain-y-Delyn a Mr J. Williams, Gwelledfa. Diolchwyd am noson ddifyr gan Mr O. Davies, Plas Gwyn a Mrs W.O. Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs Myfi Roberts a Mrs N. Jones, Madryn. Llywyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts.

Nos lau, Chwefror 14, cafwyd noson ddiddorol a hwyliog dan ofal Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol ar ei brofiadau yn yr heddlu ac fel ysgolfeistr. Rhoddwyd y te gan Mr J. Williams, Gwelledfa, Mr J.W. Owen, Llain-y-Delyn, Mr J.G. Jones, Gorffwysfa a Mr Gwilym Owen, Glasgoed. Llywyddwyd gan Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion. Diolchwyd i bawb gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen a Mrs J. Davies, Plas Gwyn.

UNDEB Y MAMAU - Cynhaliwyd Cyfarfod Undebol y Mamau yn Y Rheithordy ddechrau mis Chwefror gyda Mrs D. Gwynfor Williams yn llywyddu. Y Rheithor a arweinai'r gwasanaeth agoriadol. Y gŵr gwadd oedd y Parch. A.W. Cherry, Tal-y-sarn, a rhoes sgwrs ddiddorol iawn ar Frodwaith Eglwysig a dangosodd beth o'i waith. Mwynhawyd y noson yn fawr gan bawb oedd yn bresennol. Y gwestwagedd oedd Mrs G. Pierce, Glan'rafon a Mrs D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy.

DAWNS HEN AMSER - Cynhaliwyd Dawns Hen Amser yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Pen-y-groes, er budd Cronfa Sant Mihangel Llanrug. Y ga wyr oedd Mr a Mrs John Hughes Evans, Aberdesach. Trefnwyd y noson gan aelodau o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig. Gobeithir fod wedi gwneud elw o tua £170.00. Fe ddymuna'r Rheithor a'r Wardeiniaid ddiolch i bawb am eu cydweithrediad a'u help i wneud y noson yn llwyddiannus.

PRIODAS ARIAN - Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwilym Williams, Bryn Eifion ar achlysur eu Priodas Arian, Chwefror 26. Dymunwn bob bendith iddynt i'r dyfodol.

NANT-Y GLYN - Wedi blynyddoedd o lythru a chwyno, braf yw gweld fod cyflwr y ffordd yn Stad Nant y Glyn wedi cael ei gwella gan y cwmni a'i hadeiladodd. Y broblem oedd fod y cwmni yn newid ei chyfreithwyr bob haul a'i henw ei hun bob lleuad. Er nad yw'r broblem o'r datblygiad wedi ei datrys eto mae'r dolur llygad beth bynnag wedi ei wella.

ENW CYMRAEG - Mae'r unig stad dai yn Llanrug gydag enw Saesneg arni, sef 'Mountain View', wedi cael enw Cymraeg. Penderfynodd y Cyngor Cymuned mai Gwêl Fynydd a fyddai'n addas a derbyniwyd hyn gan Gyngor Arfon yn ddiweddar. Felly fe gaiff trigolion y stad ddefnyddio unrhyw un o'r ddau enw ac fe fydd plât yn cael ei godi wrth fynedfa'r stad yn fuan. Bydd platiau yn cael eu gosod hefyd ar stadau Glanffynnon, Afon Rhos, Minffordd, Bryn Moelyn, Nant y Glyn a Thalybont.

WAUNFAWR

GENEDIGAETHAU

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs John Dilwyn Lewis, Bryn Golau ar enedigaeth mab; i Mr a Mrs Walters, Y Llythyrdy ar enedigaeth mab, a hefyd Yvonne Parry, 16 Bro Waun ar enedigaeth mab.

LLONGYFARCHIADAU - i Mr Humphrey Jones, Tŷ Coch a Mr Alun Williams, 13 Bro Waun ar ennill cystadleuaeth y ddeuawd yn Eisteddfod Bethel. Enillodd Mr Alun Williams ar y gân werin hefyd, a daeth yn ail yng nghystadleuaeth yr her unawd.

I Bryn a Carys Jones, Tŷ'r Heddlu ar eu hymddangosiad ar y rhaglen 'Siôn a Siân' yn ddiweddar.

CROESO I'R WAUN - Croeso i Roger a Marged Dafydd sydd wedi dod i fyw i Glanfa. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

ADREF O'R YSBYTY - Mae nifer o bobl wedi derbyn triniaethau yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond mae'n dda deall eu bod i gyd wedi dod adref ac yn dal i wella. Croeso adref i Mr Hugh Morris Thomas, Bro Waun; Mrs Llinos Cadwaladr, Glyn Afon; Mr Thomas Hughie Williams, Coed Gwydryn; Mrs Hughes, Dolafon; Miss Martin, Wayside Cottage; Ceryl Davies, Tref Eilian; Miss Rosa Hughes, Tref Eilian; Miss Rhian Jones, un o athrawon yr ysgol, a Mrs Nancy Thomas, Tan y Foel.

GWERTHFAWROGIAD - Dymuna Nancy Thomas, Tan y Foel, ddiolch i berthnasau, cymdogion, cyfeillion, meddygon a nyrsus am bob gofal a charedigrwydd a gafodd yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty, ac ar ôl dychwelyd adref.

PROFEDIGAETH - Yn ddiweddar bu farw Mrs Margaret Griffiths, Afallon. Cydymdeimlir â Miss Dilys Pritchard a'r teulu i gyd.

EISTEDDFOD BACH Y WAUN - Cofiwch am Eisteddfod Capel Bethel, sydd i'w chynnal nos Wener, Mawrth 28. Mae plant yr Ysgol Sul a'r Gobeithlu'n rhydd i gystadlu, ac mae'r rhestr testunau ar gael yn y Becws neu gan yr ysgrifennydd Gwenno Owen, 18 Tref Eilian.

MERCHED Y WAWR - Yng nghyfarfod mis Ionawr o'r gangen cafwyd noson hynod o ddifyr a chartrefol yng nghwmni Mrs Hughes, Llys Meredydd. Bu Mrs Hughes yn adrodd hanesion difri a digri am ei phrofiadau nyrsio yn Llundain, ac fel nyrs ardal yn y Waunfawr. Diolchwyd iddi gan Mrs Nellie Williams, Betws Garmon, ac enillwyd cystadleuaeth y mis, sef gwneud cap nyrs, gan Mrs Luned Roberts. Gwestwagedd y te oedd Mrs Carys Owen, Mrs Beryl Jones a Mrs Luned Roberts ac enillwyd y raffi, a roddwyd gan Mrs Luned Roberts, gan Mrs Mary Davies.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Chwefror 5 gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Darllenodd Mrs Katie Jones, yr ysgrifennydd, y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a'r adroddiad o'r Pwyllgor Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni'r gŵr gwass, Mr Gwilym Rees Edwards, Swyddog Cyhoeddusrwydd Parc Cenedlaethol Eryri. Enillydd y raffi oedd Miss M. Roberts. Bydd y Sefydliad yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni y Capten Ivor Ellis yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, Mawrth 6.

NOSON GOFFI - Cafwyd noson goffi lewyrchus yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Chwefror 15, wedi'i threfnu gan aelodau Sefydliad y Merched.

Defnyddir yr arian i brynu offer dadebriat at wasanaeth y meddyg lleol.

PWYLLGOR Y NEUADD - Mewn cyfarfod diweddar o bwyllgor neuadd Waunfawr penderfynwyd tynnu nôl y lleoliad a gyflwynwyd yn wreiddiol i Gyngor Arfon fel safle posib ar gyfer neuadd, rhag i hynny amharu ar y cynlluniau sydd ar droed yn barod i sefydlu cael pêl droed i'r ieuenctid.

Gofynnir i Gyngor Arfon yn awr awgrymu lleoliad arall rhwng Tŷ Hen a Bryn Golau. Penderfynodd y pwyllgor i gyflwyno adroddiad i gyfarfod cyhoeddus a gynhelir yn y pentref ym mis Mawrth ac i bwysu ar i'r cyfarfod hwnnw ddod i benderfyniad pendant ar ddyfodol cyfleusterau dan do i blant y pentref. Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg darpariaeth sy'n bod ar y funud i bobl ieuanc Waunfawr gyda'r nos.

Yn bresennol yn y cyfarfod oedd Geraint Davies, Eurig Wyn, Dafydd Iwan, Rob Jones, Alice Johnson a Leslie Jones.

Gofynnwyd i Eurig Wyn i gysylltu â Chyngor Arfon ar ran y pwyllgor ac hefyd i wneud ymholiadau adeiladau eraill posib ar gael yn y pentref.

YMCHWIL CANCR - Derbyniwyd £208 tuag at Gronfa Ymchwil Cancr, er cof am Miss Catherine Ellen Jones, 26 Tref Eilian.

Dyma Mr T.H. Williams, Drws y Nant yn talu teyrnged iddi, ac yn cyfleu'r golled ar ei hôl, yn enwedig o blith cynulleidfia Bethel.

COFIO CATHERINE

Ar ddechrau Blwyddyn Newydd

Trist ei choffau yn awr;

Yr oedd yn aelod ffyddlon,

Mae'r bwch o'i cholli'n fawr.

Un siriol iawn, a pharchus,

Diwenwyn, goelia i,

Wel boneddiges dawel -

A hoffus ydoedd hi.

Un o hen gyff yr ardal -

Yr un adwaenwn i,

Yn Nhy'n y Wern, a Treflan,

Fan draw y magwyd hi, -

Yn ieuanc y trodd allan

I'r byd, fe wyddom hyn.

A chadwodd drwy'r blynyddoedd

Lamp dyletswyddau 'nghynn.

A bu yn gydwybodol -

A gonest yn ei gwaith,

Gair da gan bawb oedd iddi

Hyd derfyn eitha'r daith,

Ymddeol, a gwneud aelwyd -

Ddelfrydol, gynnes, glyd -

Ond pelerinion ydym -

Ar briffordd yr hen fyd.

Y Beibl Llyfr y Llyfrau

Wrth law oedd ganddi hi,

Gafaelai ynddo'n ddyddiol

A'i ddarllen glywais i;

Yng ngafael blin afiechyd

Un oedd a'i ffydd yn gre'

'Rwy'n credu'n wir fod Catherine

Yn agos iawn i'w lle.

Ein cydymdeimlad llwyraf

Âr teulu yma a thraw,

Y brodyr, a'r chwiorydd,

I oedfa mwy ni ddaw -

Ond diolch am gael 'nabod

Un annwyl dd'wedaf fi;

Prinhau mewn byd ac eglwys

Mae'r rhai 'run fath â hi.

T.H. Williams,

Drws y Nant, Waunfawr.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

CWM-Y-GLO



Plant ysgol gynradd Cwm-y-glo yn perfformio drama ar y themâu 'Drama'r Geni' a 'Blwyddyn Gydwladol y Plentyn' yn y cyngerdd Nadolig.

Y GANOLFAN GYMDEITHASOL – Bydd Cyngerdd Agoriad Swyddogol y Ganolfan yn cael ei gynnal nos Iau, Mawrth 27. Bydd y drysau yn agor am hanner awr wedi chwech, gyda'r noson yn dechrau am saith.

Fe fydd yno lawer o wahoddedigion ac fe ddisgwylir yn fawr gael treulio noswaith ddifyr a graenus. Bydd croeso cynnes iawn i'r achlysur arbennig hwn, pryd y bydd mynediad yn rhad ac am ddim i bawb. Dewch yn llw.

YR URDD – Cafwyd noson hynod lwyddiannus mewn 'Disgo'r Urdd' nos Fercher, Ionawr 30. Trefnwyd y noson gan bwyllgor lleol yr Urdd. Braf iawn oedd gweld cynifer o blant yn dawnsio ac yn mwynhau eu hunain. Mr Dafydd Owen, Trefnydd yr Urdd oedd y 'Disc Joci' ar y noson a diolch iddo am ei gymorth parod. Yn ystod yr egwyl cafodd y plant fwyd blasus a drefnwyd gan y merched. Mewn cystadleuaeth dan ddeg oed enillodd Alison Jones, Fron Gader, docyn llyfr a roddwyd gan Mrs Sylvia Williams, Llwyncoed. Mewn cystadleuaeth i blant dros ddeg oed Kevin Wyn Owen, Tal Gwynedd fu'n ffodus i ennill tocyn llyfr a roddwyd eto gan Mrs Sylvia Williams, Llwyncoed. Dymunir diolch am y gefnogaeth a chymorth a gafwyd ar y noson.

Nos Iau, Chwefror 8, bu'r plant y tro yma yn mwynhau Dawnsio Gwerin. Mr William Lloyd Davies, prifathro'r Garnedd fu'n eu hyfforddi a chafwyd noson hynod ddifyr yn ei gwmni. Edrychwn ymlaen at ei ymweliad nesaf yn fawr iawn. Mr Harris Thomas fydd yn difyrru'r plant ar Chwefror 21.

Nos Lun, Mawrth 17 cynhelir noson Moes a Phryn, yn neuadd yr ysgol am 7 o'r gloch. Pris mynediad 20c. Plant a'r Henod: 10c. Yr elw at y gangen leol. Croeso i bawb. Dewch yn llw i brynu a gwerthu.

MARW – Ar Chwefror 15 yn Ysbyty Druid, Llangefni, wedi cystudd maith yn 66 mlwydd oed, collwyd un o blant y Cwm, sef Nellie Vaughan Jones Owen, merch y diweddar Owen a Maggie Hughes, Bryn. Cafodd ei haddysg yn ysgol y pentref, ac yna Ysgol Brynrefail, ac oddi yno i nyrsio yn Llundain, lle y bu am flynyddoedd a thrwy gydol yr ail Ryfel Byd. Yn 1947 ymbriododd a chartrefu yn Neifion, Rhosneigr, Ynys Môn, lle y bu yn fawr iawn ei pharch hyd y diwedd. Llosgwyd ei gweddillion yn Amlosgfa Bangor, Chwefror 18, lle y daeth tyrfafu i dalu y gymwynas olaf iddi. Gedy b iod William, unig ferch Heulwen ac ŵyr Gethin.

TEYRNGED – i'r ddiweddar Mrs Nellie Vaughan Jones Owen. Siom fawr imi oedd clywed am ei marwolaeth. Fel Nellie Vaughan, Bryn yr oeddem ni yn ei hadnabod. Un o eifeiliaid ydoedd. Eifion Lloyd oedd enw ei brawd a'm cyfaill annwyl innau. 'Roedd Nellie Vaughan ac Eifion a minnau yn ffrindiau mawr pan yn blant a phan aeth Nellie i Lundain i nyrsio ac Eifion a finnau i'r chwarel. Fe oddiweddwyd Eifion gan afiechyd blin a bu farw yn ifanc ar ôl cystudd maith.

Cafodd Nellie Vaughan hefyd gystudd. Treuliodd flwyddyn a hanner yn Ysbyty'r Druid.

Cefais y fraint o fod yn yr amlosgfa ym Mangor ddydd Llun, 18 o Ragfyr lle 'roedd, ar wahân i'r teulu, lawer ffrind o'r Cwm sydd ar wasgar wedi dod i dalu'r gymwynas olaf iddi ac un o hogiau'r Cwm yn cymryd rhan yn y gwasanaeth, sef y Parch Emyr Roberts, Ffordd Pendyffryn, y Rhyl (Emyr Bwlch).

'Roedd llawer o bethau yn mynd trwy fy meddwl yn y gwasanaeth gan fod Bryn yn ail-gartref imi pan oedd Owen Hughes a Mrs Hughes yn byw yno.

Owen Hughes yn cario gwair, yn trin yr ardd, ac Eifion a minnau yn ei gynorthwyo i wneud cytiau ieir, cadw cwningod a rhedeg i sioeau o bob math a phan fyddai Nellie Vaughan neu Jenny ei chwaer yn dyfod adref dyna i chwi wledd fyddai yn y Bryn.

Mi allwn ni ysgrifennu llyfr am nanes y Bryn, Cwm Uchaf ond nid yw amser yn caniatáu rŵan, felly rhaid tewi a heddiw llwch.

Ted Rallt Goch gynt
E.O. Thomas, 15 Ffordd Tŷ Du,
Llanberis.

SAGA DAFYDD PRICE A'I WELY

Os Dafydd a welwch â'i gefen yn gam
Wel peidiwch â meddwl ei fod yn
cael cam

Ei wraig Vera a fu
Yn aildrefnu'r tŷ
A Dafydd yn cario'r 'Diván'

'Rôl gweithio yn galed am 'mhell
dros ddwy awr.

I'r gwely'n flinedig aeth y ddau
Ond rhywdd tua thri
Wel dyna ichi gri

I'r canol roedd y gwely yn cau.

Am esboniad i'r digwyddiad rhyfedd
hwn

"Digon syml," medd Dafydd yn llon,

"Chwe choes Vera bach
Sydd i'n gwely iach

Anghofiais am ddwy yn y strach"!
Y Frân Wen

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd Cyfarfod Undeb y Mamau yn yr Ysgol Gynradd yn ddiweddar. Arweiniwyd y Gwasanaeth gan y Rheithor a Mrs D. Gwynfor Williams, y Rheithordy oedd yn llywyddu. Y gŵr gwadd oedd Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug a chyn-brifathro Cwm-y-glo a Llanrug. Rhoes sgwrs ddiddorol iawn ar ei bererindod yng Ngwlad Canaan a dangosodd sleidiau da iawn ar y wlad. Y gwestwagedd oedd Mrs Roberts, Bodgwynedd a Mrs Orritt, Morannedd. Yr organydd oedd Miss C. Hughes. Diolchwyd i Mr Williams gan Mrs Owen, Isfryn a Mrs Williams Nant Forgan a ddiolchodd i'r gwestwagedd.

MEWN YSBYTY – Pan ar fynd i'r wasg clywsom mai dal yn yr Ysbyty y mae Mr T. Owen, 3 Dolafon. Anfonwn ein cofion ato a gobeithiwn y cawn ei weld adref yn ôl cyn y rhifyn nesaf.

MARW – Yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor bu farw Mrs J.E. Higgins, Bron Eryri a hi yn 85 oed. Gweddwyd oedd i'r Capten L.C. Higgins a fu farw tua ugain mlynedd yn ôl. Ganwyd hi yn Nhal Gwynedd, Cwm y Glo yn ferch i Mr a Mrs J.T. Morris. Athrawes oedd wrth ei galwedigaeth a bu am flynyddoedd yn brif athrawes yn Ysgol Cwm-y-glo. Er iddi grwydro cyfandiroedd nid oedd unman yn debyg i Gwm-y-glo iddi ac yr oedd yn rhan o draddodiad a bywyd y Cwm heb os nac onibai. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Sant Gabriel ac yr oedd yn bresennol yng ngwasanaeth bore Sul cyn ei symud i'r ysbyty. Bu am flynyddoedd yn Warden, Tyrsorydd ac organydd yr Eglwys ac hefyd yn athrawes Ysgol Sul. Ychydig flynyddoedd yn ôl rhoes organ hardd yn rhodd i'r Eglwys. Tystiai'r dorf fawr yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug ddydd ei hangladd i'w phoblogrwydd ac i'r

parch oedd gan ei hardalwyr iddi. Yr oedd y gwasanaeth o dan ôfal y Rheithor ac fe gymerwyd rhan hefyd gan y Parchedigion Ganon Alun Jones, Rheithor Llanberis a Deon Gwlad Arfon, Canon R. Glyndwr Williams, Rheithor Llanbeblig a Chaernarfon. Trefor Jones, Y Fali, Ynys Môn a chyn-giwrdd Llanrug a E. Trefor Jones, ficer Caernarfon. Yr organydd oedd Miss N. Owen, Glan'rafon. Y Rheithor oedd yn arwain Gwasanaeth Coffa i Mrs Higgins yn Eglwys Sant Gabriel y nos Sul wedi'r angladd a rhoes deyrnged uchel i'w gwaith a'i ffyddlondeb i'r Eglwys ac i'r ardal. Miss C. Hughes oedd yr organydd. Y prif alarwyr oedd y Mri T.H. Morris a J.M. Morris, brodyr; Mr a Mrs J.T. Morris a Miss O. Morris nai a nithoedd. Yr oedd hefyd amryw berthnasau eraill a chyfeillion yn bresennol. Yn ei marw fe ddaeth i ben beth o hanes yr ardal ac y mae chwithdod o'i cholli.

BETWS GARMON

MARW – Yn frawychus o sydyn ar Chwefror 17 bu farw Mrs Brenda Williams, 8 Cefn Cwellyn Rhyd-ddu yn 44 oed. Cydymdeimlir yn ddwys â'i gweddwyd, Mr Eifion Williams ac â'r tair merch a'r teulu i gyd.


BEDYDD – Bdyddiwyd Manon Wyn, merch fach Mr a Mrs Emyr Evans, Bron y Graig, yng nghapel Salem ddydd Sul, Chwefror 24.

LLONGYFARCHION – I Mr H.O. Jones, Tŷ Coch ar ennill cystadleuaeth y ddeuawd gyda Mr Alun Williams, Waunfawr yn Eisteddfod Bethel.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

BETHEL

DIOLCH – Dymuna Mrs Lydia Hughes, Corra Linn ddiolch o galon i feddyg y teulu, y meddygon a'r gweinyddesau a'r holl staff yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, a'r teulu a chyfeillion oll am eu gofal drosti yn ei gwaeledd diweddar.

YR URDD – Nos Wener, Chwefror 22 bu cyfarfod o Bwyllgor yr Urdd yn y Neuadd. Penderfynwyd cynnal noson ola'r tymor nos Wener, Mawrth 21 pryd y ceir Noson Goffi, gyda bwrdd gwerthu yn y Neuadd am 6.30.

Y rhaglen am weddill y tymor yw: Nos Wener, Chwefror 29 – Noson o Ffilmiau gan aelod o Wasanaeth Tân Gwynedd. Mawrth 7 – Noson o gystadlaethau amrywiol. Mawrth 14 – Cyngerdd gan yr aelodau sydd yn cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd.

Y NEUADD – Fel y gwyr y rhan fwyaf o'r pentrefwyr fe godwyd toiledau newydd yn y Neuadd Bentref yn ystod y flwyddyn. Fe gostiodd y toiledau £4,000 ond derbyniwyd £3,000 o grantiau gan y Swyddfa Gymreig a'r Cyngor Sir. Cyfrannodd y Y.M.C.A. £500 ac 'roedd gan y Neuadd £500 i wneud y cyfraniad lleol o £1000. Yn ystod y misoedd nesaf bydd y gwaith o godi cegin newydd ac ystafell bwyllgor yn dechrau; bydd y gost yn £3,500 ond gyda grantiau dim ond £875 fydd angen ei godi yn lleol.

Penderfynodd Pwyllgor y Neuadd mewn cyfarfod diweddar anfon llythyr at yr holl bentrefwyr yn gofyn am gyfraniad tuag at y cynllun. Gobeithir y bydd ymateb da i'r ymgyrch ac y bydd y Neuadd yn fan cyfarfod teilwng i'r pentref ar ôl cwblhau'r cynlluniau.

PRIODI – Dydd Sadwrn, Chwefror 2 yng Nghapel Bethel priodwyd Sulwen, merch Mr a Mrs Evan Owen, 4 Corra Linn a David Anthony, mab Mrs Joan Thomas, 41 Dôl Elidir, Llanberis. Mae'r ddau yn cartrefu yn Ysgoldy. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu bywyd proidasol.

EISTEDDFOD BETHEL – Nos Wener, Chwefror 8 mewn Noson Goffi yn y Neuadd tynnwyd y gwobrau yn y Raffl a drefnwyd gan bwyllgor yr Eisteddfod. Y cyntaf, gyda gwobr o £10 oedd A. Williams, 7 Lôn Helen, Caernarfon; Ail, £5 Elwyn Griffith, Lôn Glai; 3ydd, £3 John Pritchard, Llwyn Onn, Pen-y-groes.

Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus ar y cyfan gyda nifer fawr o blant yn cystadlu yn y pnawn ond braidd yn siomedig oedd nifer y gynulleidfa yn y ddau gyfarfod. Siomwyd y gynulleidfa yn y nos pan gyhoeddodd y beirniad, Mr Elwyn Evans, nad oedd neb yn deilwng o'r Gadair.

DIOLCH – Mae Mrs E.M. Morgan, 8 Cremlyn wedi rhoi'r gorau i werthu'r Eco ar ôl bod wrthi o'r dechrau. Diolch i Mrs Morgan am ei chyfraniad.

ENNILL GWOBRA – Dyfarnwyd y wobrgyntaf am y fuwch a werthwyd am y pris uchaf y kilo ym Marchnad y Gaerwen i Mr Goronwy Jones, Glan Gors yn ddiweddar.

DYMUNIADAU DA – Dymuniadau gorau i Mr Tom Jones, 2 Cremlyn a Mt Hugh Jones, Granville sydd ill dau yn Ysbyty Bryn Seiont.

Y GYMDEITHAS – Nos Iau, Chwefror 14 cafwyd noson o Frethyn Cartref arbennig o dda yn y Gymdeithas. Arweiniwyd y noson gan y Parch. W.R. Williams a chymerwyd rhan gan Mrs Rita Williams, Mrs Ellen Ellis, Mr Tomi Williams, Mrs Williams, Gwylfa, Mrs Beti Owen a Mr Goronwy Jones. Diolchwyd i'r rhai a gymerodd ran gan y Parch. Richard Jones.

Y CARNIFAL – Siomedig iawn oedd y nifer a ddaeth i'r Cyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd i drefnu gweithgareddau'r Carnifal eleni. Dewiswyd rhai swyddogion newydd a threfnwyd rhaglen ar gyfer wythnos o Garnifal ddiwedd Mehefin.

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus arall ar gyfer Nos Wener, Chwefror 29. Gobeithio y bydd gwell cynrychiolaeth yn y cyfarfod hwnnw neu bydd yn edrych yn dywyll am Garnifal yn 1980.

rhaf o blant dosbarthiadau 4, 5 a 6 i Fangor i weld arddangosfa o waith celf a chreffft safon 'O' a safon 'TAU'. Yr oedd y plant dan ofal Mr Evie Roberts a Mr Gwyndaf Owen.

**ELW SIOP
YR YSGOL**

Gwnaethpwyd £40 o elw yn ystod tymor y Nadolig yn siop yr ysgol, a'r wythnos yma anfonwyd yr arian i Gaerdydd i 'Gronfa Blwyddyn y Plentyn'.

STORFA
Mace
**O.R. & M.
PARRY**
**Sgwâr
Llanrug**
Caernarfon 2790
Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

CRONFA GOFFA RHIAN WYN

Pum mlwydd oed oedd Rhian Wyn pan fu farw ychydig cyn y Nadolig. Collodd frwydr am ei bywyd, wedi blwyddyn o frwydro dewr. Bu farw oherwydd bod tyfiant na ellid ei drin ar yr ymennydd. Mae'n gwbl amhosib i ni na fu trwy'r boen ddirdynol o fod yn rhieni sydd yn gorfod wynebu'r fath sefyllfa, i sylweddoli'n llawn faint gofid Olga a Gwilym Thomas, rhieni Rhian.

Nod pennaf Olga a Gwilym Thomas ar hyn o bryd ydyw sicrhau fod yna well gobaith trin unrhyw un, fel Rhian Wyn, afydd yn dioddef o dyfiant ar yr ymennydd.

Un ffordd sydd yn cynnig gobaith i'r dyfodol yw'r defnydd a wneir y dyddiau hyn o'r pelydryn laser mewn triniaeth feddygol. Prin bedair blynedd sydd er pan ddatblygwyd y dull hwn i fod o gymorth mewn ysbytai, ond eisoes profodd ei werth. Gellir anelu'r golau i fanylach corneli o'r corff nag a gyrhaeddir trwy'r dulliau arferol o drin gwaeledd o'r fath. Mae'n bosib, er nad oes sicrwydd pendant, y gellir gwella sawl tiwmor gyda'r dull newydd hwn. Dyma un cyfle ychwanegol fel petae.

I geisio rhoi'r un cyfle ychwanegol hwn agorwyd cronfa gyda'r teitl 'Cronfa Goffa Rhian Wyn'. Ei bwriad yn wreiddiol beth bynnag, yw codi wyth mil o bunnau. Cyfraniad tuag at brynu uned pelydr laser yn ysbyty Walton fydd yr arian. Mae'n bwysig nodi, rhag ofn bod rhai ohonoch wedi cyfrannu eisoes at rywbeth tebyg, fod yna nifer o wahanol fathau o Belydrau Laser, ac mai'r math i drin gwaeledd neu dyfiant ar yr ymennydd sydd gan y gronfa dan sylw. Cost uned o'r fath ydi £26,000. Ar ben hyn mae rhan arall angenrheidiol yn costio £3,750. Prynnir y rhan ychwanegol yn **gyfangwbl** o gronfa goffa Rhian Wyn, ac fe roir y gweddill tuag at gost y brif uned.

Daeth tua mil o bunnau i'r gronfa eisoes ac mae'r teulu yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth y cyhoedd. Y gobaith yn awr yw cael cymorth pob math o gymdeithasau a grwpiau trwy Gymru gyfan, ac yn enwedig Gogledd Cymru, i godi'r arian mor fuan ag sydd bosib'.

Cofrestrwyd y gronfa gyda Chomisiynwyr Elusennau, y corff cyfreithiol i warchod buddiannau'r cyhoedd gyda chasglu arian o'r fath. Nodwyd yr union beiriant y cyfrennir yr arian tuag ato, ac i ba gyfeiriad yr â unrhyw arian ychwanegol. Gwnaed y paratodau oll yn gyfreithiol, yn fanwl ac yn gywir. Yr unig beth sydd ei angen bellach yw cefnogaeth y cyhoedd, cefnogaeth eich gwahanol gymdeithasau chi. Bydd pob cyfraniad yn fwy na gwerthfawr. Os gallwch fod o gymorth, a fyddech mor garedig ag ymholi, neu'n well byth, anfon eich cyfraniadau i:

'Cronfa Goffa Rhian Wyn,'

Gwynfor, Dinas,

Llanwnda, Arfon,

Gwynedd. Rhif Ffôn: Llanwnda 830540.

NANT Y GLYN: GWELLIANT O'R DIWEDD



Trowch i golofn Llanrug am yr hanes.

**GWASANAETH
NEWYDD
YNG
NGHAERNARFON**



**Bathodynau
Crwn ar
gyfer . . .**

Clwb Rygbi/Tim Peldroed/Cymdeithas
Grŵp Pop/Clwb Gwerin/Papur Bro
Siop/Busnes/Swyddfa, etc, etc

Am fwy o fanylion a samplau cysyllter ag:

EURIG WYN

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

SIBRYDION O'R YSGOLION

**YSGOL
BRYNREFAIL**

MYNYDDA

Dydd Sadwrn, Chwefror 9 aeth dwsin o blant yr ysgol ar daith fynydd gyda thri o'r athrawon: Mrs Noreen Manning, Mrs Katherine Owen a Mr Gomer Davies. Buont yn cerdded tros y Foel Gron, Moel Eilio a Moel Goch, ac er bod y tywydd yn ddifrifol cawsant ddiwrnod pleserus.

DRAMÂU

Dydd Gwener, Chwefror 22 aeth dros 100 o blant dosbarthiadau 3, 4 a 5 i Theatr Arcadia, Llandudno i weld perfformiad o'r ddrama gan Shakespeare 'The Merchant of Venice'. Yr oedd y plant dan ofal Mrs Noreen Manning, Mrs Mary Hughes a Mrs Mari Williams.

Ar Fawrth 27 bydd cyfle i weld rhai o blant yr ysgol yn perfformio 3 Drama Fer yn Neuadd yr Ysgol. Bydd dwy ddrama yn Gymraeg ac un yn Saesneg.

**ARDDANGOSFA
GELF
A CHREFFT**

Dydd Mawrth, Chwefror 26 aeth 14

Dyddiadur y Mis

MAWRTH 1, Sadwrn: BRYNREFAIL – Clwb Pedwar-ugain yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Nhŷ Gwyn, Pentrefelin. WAUNFAWR – Yr Ysgol Feithrin yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Clynnog. LLANRUG – Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Lenyddol Capel M.C.

3, Llun: LLANRUG – Y Gymdeithas Undebol yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas. LLANBERIS – (1)Clwb Methedig Eryri yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yng nghwmni rhai o ddisgyblion Ysgol Dolbadarn. (2)Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

5, Mercher: LLANBERIS – Clwb y Mamau. DEINIOLLEN – Sefydliad y Merched yn diddori'r Henoed gyda Noson Lawen a swper. LLANRUG – Y Cyngor Eglwys – Seiat dan

arweiniad y Canon Glyndwr Williams, Caernarfon yn Eglwys Sant Mihangel am 7 o'r gloch.

6, Iau: DEINIOLLEN – Cymdeithas Chwiorydd Capel Disgwyf. WAUNFAWR – Sefydliad y Merched yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yng nghwmni'r Capten Ivor Ellis. LLANRUG – Noson Goffi Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Mawr.

7, Gwener: DINORWIG – Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Eglwys Santes Fair am 2 o'r gloch.

8, Sadwrn: LLANBERIS – Noson o Adloniant a Chyw Iâr yn y 'Padarn Lake'. BETHEL – Cinio Blyneddol Clwb y Rhos yng Nghastell Cidwm. YR ARDAL – Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail

10, Llun: BETHEL – (1)Clwb y Rhos. LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. (2)Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. PENISARWAUN – Noson o 'Gawl a Chân' yn yr Ysgol Gynradd, yng nghwmni Edward. Yr elw at Eisteddfod y Pentref.

11 Mawrth: BETHEL – Clwb yr Henoed yn Festri Capel Bethel am 2 o'r gloch. LLANRUG – Merched y Wawr – Noson yng nghwmni Cangen Llangejni.

12, Mercher: BETHEL – Merched y

Wawr.

13, Iau: DEINIOLLEN – Swper Gŵyl Ddewi Sant Cymdeithas Chwiorydd Capel Disgwyf. LLANBERIS – Eisteddfod Capeli y Pentref a Nant Peris yng Nghapel Gorffwysfa.

14, Gwener: LLANBERIS – (1)Te yr Henoed. (2)Eisteddfod Capeli y Pentref a Nant Peris yng Nghapel Gorffwysfa.

17, Llun: LLANBERIS – (1)Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. (2)Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. CWM-Y-GLO a BRYNREFAIL – Adran yr Urdd yn cynnal noson 'Moes a Phryn' yn Ysgol Cwm-y-glo am 7 o'r gloch.

18, Mawrth: LLANRUG – Tombola o dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn yr Ysgol Gynradd.

19, Mercher: LLANBERIS – Clwb y Mamau. CWM\$Y\$GLO – Merched y Wawr.

21, Gwener: DEINIOLLEN – Ffair Wanwyn dan nawdd Cymdeithas Pobl Ifainc Cefnywaun yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7 o'r gloch.

24, Llun: LLANBERIS – (1)Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. (2)Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

26, Mercher: LLANRUG – Ffair Basg a Thombola dan nawdd Pwyllgor yr

Ysgol Feithrin.

27, Iau: WAUNFAWR – Merched y Wawr. CWM-Y-GLO – Cyngerdd Agoriad Swyddogol y Ganolfan Gymdeithasol.

28, Gwener: LLANBERIS – Te yr Henoed. WAUNFAWR – Eisteddfod Capel Bethel.

31, Llun: LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

DYDDIADAU I'W COFIO

Ebrill 14 – Sefydliad y Merched, DEINIOLLEN yn cynnal noson 'Moes a Phryn' er budd y Ganolfan Gymdeithasol.

Ebrill 25 – Eisteddfod PENISARWAUN yng Nghapel Glasgoed.

Mai 10 – Pleserdaith Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. LLANBERIS i Aberystwyth.

Mai 15 – Ffair Wanwyn Clwb Gwyrfa, WAUNFAWR.

Mai 29 – Pleserdaith flynyddol Clwb Gwyrfa, WAUNFAWR.

Gorffennaf 6-12 – Wythnos Garnifal DEINIOLLEN.

CYNLLUNIAU MUDIAD FFERMWYR IEUAINC CYMRU gan Myfanwy Davies, Swyddog Cynlluniau dros Gymru

Drwy gyfrwng Eco'r Wyddfa, y mae'n bleser gennyf eich cyflwyno i'r Cynlluniau treadol y mae'r Mudiad Ffermwyr Ieuainc yng Nghymru wei ymgymryd â nhw yn ddiweddar. Yn unol â'r ysbryd o gadwraeth sy'n fynnu heddiw, y mae aelodau'r Mudiad am wneud eu cyfraniad hwythau i'r ymgyrch drwy ddiogelu rhannau o ddiwylliant materol a llafar Cymru.

Yr hyn y bwriadant wneud yw atgyweirio hen beiriannau'r fferm a'r tŷ; anwyddus hen adeiladau megis yr efail neu melin ddŵr; diogelu cefn gwlad drwy atgyweirio waliau sych neu lanhau llwybrau ac ati. Gobeithiant hefyd wneud cofnod o'r hen adeiladau fferm megis y 'storws' a'r ysgubor sy'n dal ar eu traed. Rhan anhepgor o fywyd cefn gwlas gynt oedd y crefftwy'r gwledig megis y gof, y cyfrwywyr, y saer maen a'r clocsiwr. Ysyaeth, y mae'r crefftwy'r traddodiadol hyn bron â diflannu'n llwyr erbyn hyn a gobeithia'r Ffermwyr Ieuainc recordio'r rhai prin sydd ar ôl Fe ffermwyr byddant hefyd yn awyddus i gasglu gwybodaeth am y ffordd draddodiadol o amaethu megis plygu cloddiau neu gynaeafu. Bydd y merched ar y llaw arall yn canolbwyntio ar wraig y tŷ drwy ddarganfod sut roeddynt gynt yn corddi neu gasglu rysetau traddodiadol Cymreig.

Camgymeriad fyddai tybio fod diddordebau'r Ffermwyr Ieuainc ynghlwm wrth amaethyddiaeth a gwyddor tŷ yn unig, oherwydd yr ydym yn denu aelodau o gefndir a galwedigaethau amrywiol. Bydd y rhain yn fwy tebygol o fynd ati i recordio llên gwerin, i ddargnaffod traddodiadau, chwedlau ac hyd yn oed ofergoelion eu cyndadau. Byddant yn awyddus i ddod o hyd i hen feddyginiaethau hefyd, a'r defnydd y gwnaethpwyd o blanhigion a llysiau. Agwedd bwysig arall ar ein traddodiad llafar yw'n tafodieithoedd a bydd ein haelodau

yn edrych am siaradwyr tafodiaith leol. Y mae gan bob ardal ei geiriau a'i hymadroddion unigryw a chredwn ei bod yn angenrheidiol i gofnodi'r rhian cyn yr ant i golli. Yn yr un modd y maent am gofnodi enwau sy'n bodoli mewn gwahanol ardaloedd ar gaeau, coedwigoedd, nentydd, llynnoedd, ogofau neu gorsydd. Nad anghofiwn am Gymru, gwlad y gân oherwydd gwêl y Ffermwyr Ieuainc fod angen recordio canuon gwerin traddodiadol Cymru yn ogystal â'i charolau a baledi.

Bydd deunydd hefyd yn cael ei gasglu ynghyd. Er enghraifft, bydd yr aelodau'n chwilio am hen luniau, cardiau post, dyddiaduron, dogfennau megis ewyllysiau, biliau, llyfrau a llyfrynau o bob math. Gobeithir y bydd y rhain o ddefnydd i rai o'r aelodau i ysgrifennu hanes eu hardaloedd neu'n wir eu clybiau.

Os tybiwch fod hyn oll yn dra uchelgeisiol, rhaid cyfaddef ein bod ni yn ymwybodol o'r sialens sydd o'n blaen. Rydym yn ffodus sut bynnag o gael cyfarwyddwyd gan Amgueddfa Werin Cymru. Rhaid imi beidio anghofio sôn hefyd am gefnogaeth Adran Addysg y Swyddfa Gymreig a roddodd y Cynllun hwn ar droed drwy neilltuo cymorthdal tair blynedd i'r Mudiad. Gyda'i bendith

YR HOGIA YN NIGERIA



Ond peidiwch â phoeni. Dydi hi ddim mor oer yno fel bod rhaid iddyn nhw eistedd o flaen y tân. Dyma lun ohonyn nhw rhag ofn y byddwch yn methu eu 'nabod pan ddon nhw'n ôl oherwydd eu lliw haul!

hwy, hyderir y bydd y cynllun yn ymestyn o Ebrill 1979 i Fawrth 1982.

Carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ofyn yn daer am eich cymorth chwithau'r cyhoedd. Os medrwy ein cynorthwyo mewn unrhyw fodd, megis awgrymu hen gymeriad i'w recordio neu grefftwr, buaswn yn ddioelchgar dros ben petaech yn cysylltu â mi yn y cyfeiriad isod. Y

mae coreso ichi gysylltu hefyd os carech gael rhagor o fanylion. Y cyfeiriad i anfon ato yw: Miss Myfanwy Davies, Swyddog Cynlluniau, Swyddfa Ffermwyr Ieuainc Cymru, Coleg Addysg Bellach Maesyfed, Llandrindod, Powys. LD1 5ES

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthyh.

WIL a VAL GUY TREFLYN STORES BETHEL

Bwydydd, Melysion,
Teganau a Diodydd
Y FELINHELI 670237

D.E. & R.P. JONES



Y BECWS

DEINIOLLEN

Ffôn: LLANBERIS 232

Perchnogion newydd – ond
BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS
fel o'r blaen!

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS
Dosberthir drwy'r fro
HEB UNRHYW DÂL YCHWANEGOL

CHWARAEON

ADAR Y NOS

Adar y nos yw'r rhai sy'n gyrru a gwylio ceir rali, a daeth llwyddiant i dri thim a chysylltiad ganddynt â'r ardal yn ystod 1979. Mae'r math hwn o adloniant bellach yn boblogaidd iawn, a'r her o yrru'n gyflym hyd ffyrdd y nos yn denu mwy a mwy i fuddsoddi mewn moduron a'u haddasu ar gyfer y rheolau diogelwch. Mae ffyrdd troellog cefn gwlad yn denu'r gorau o'r gyrwyr ym mhob math o dywydd, a gallu'r cyd-yrrwr, sef y naffigator i ddilyn y ffordd gywir ac i rybuddio am bob tro a chornel yn hanfodol er llwyddiant y tim.

Yn y dosbarth i ddysgwyr, neu'r 'novice', y bu'r tri thim yn cystadlu y llynedd, ond bellach, ar sail eu llwyddiant fe'u dyrchafwyd i'r

dosbarth 'semi-expert'.

Datsun 240 Z yw car Alun Foulkes o Fethel ac Ian H. Roberts o'r Bontnewydd sy'n darllen y map iddo. Yn ddiweddar daethant yn ail yn y rali J.J. Brown i ddysgwyr ac yn orau yn rali Meirion Clwb Moduron C. & A.

Ym mis Tachwedd y llynedd y dechreuodd Trevor Jones o Sling a Wyn Morris o Landdeiniolen gystadlu, ond eisoes daethant yn ail yn rali 'novice' Auto Palace ac yn drydydd yn rali 'novice' J.J. Brown yn eu Ford Mexico.

Y pâr mwyaf llwyddiannus fu Alfie Griffiths o Fethel a John E. Jones o Benisarwaun, eto mewn Ford Mexico. Hwyr oedd y dysgwyr gorau mewn pum rali y llynedd a daethant yn ail mewn un arall. Daeth Alfie'n ail yn y gystadleuaeth am yrrwr gorau'r flwyddyn a John yntau'n ail gyd-yrrwr y flwyddyn.



Alfie yn cornelu'r Ffordyn rhywle yng nghefn gwlad yn ystod Rali Station Motors yng Ngorffennaf 1979 a John yn gafael am ei fywyd.

SNWCER DUON LLANRUG

Mae'r tim wedi gostwng i'r chweched safle yn y gynghrair bellach o ganlyniad i ddwy gurfa a gêm gyfartal yn ystod y mis; ond daeth pethau'n well yr wythnos ddiwethaf - trechwyd Gleison Bangor Social o 6 gêm i ddim.

Llwyddodd David Roberts i wneud brêc ucha'r tymor yn y gêm hon, sef 55 pwynt.

Bu'n fis bythgofiadwy i Clive Griffiths gan iddo deithio i Lai, ger Wrecsam ac yno cael chwarae yn erbyn Pencampwr y Byd, sef y

Cymro Terry Griffiths. Hwyrach na fu'r Pencampwr ar ei orau drwy gydol y noson gan na enillodd ond 5 o'i 9 gêm, - yn anffodus dewisodd y ffrâm yn erbyn Clive i arddangos ei wir allu gan ennill o 118 pwynt i 18 - a hynny'n cynnwys brêc o 113! Gobeithio y daw gwell lwc iddo yng ngêm G o - g y n d e r f y n o l Pencampwriaeth Unigolion y Gynghrair yn y Felinheli yn erbyn A.M. Griffiths ar Chwefror 27.

UN APÊL ARALL

Hoffwn, ar ran pwy bynnag fydd yn gyfrifol am y dudalen hon ar ôl ein cyfarfod cyffredinol wneud un apêl arall am gysylltwyr o'r clybiau niferus sydd bellach yn yr ardal. Ni all y dudalen ôl fod yn adlewyrchiad o holl chwaraeon y fro heb fod arni hynt a helynt pob tim Snwcer, Pwll, Badminton a Dartiau'r fro. Diolch i'm cyfranwyr arferol, sef Dafydd W. Thomas, Eurwyn Thomas a Clive Griffiths, ond ble mae'r gweddill ohonoch? 'Rwy'n siŵr na fyddai'n dreth ar amser na gallu un cynrychiolydd o bob tim yn yr ardal i nodi canlyniadau'r mis a threfnu i'w hanfon i'r Golygydd Chwaraeon.

PÊL-DROED

LLANBERIS

LLANRUG

2.2.80:

Llanberis v Bangor Athletic
3 - 2

Cwpan Alves
Y Rownd Gyntaf

Y gêm yn cael ei chwarae mewn mwd a glaw trwm, a Raymond Harding yn sgorio tair gôl i ennill y gêm i Lanberis. Erbyn y diwedd 'roedd golwg ofnadwy ar y cae, a'r chwaraewyr yn suddo dros eu 'sgidiau yn y mwd. Bu rhaid i Arfon Philips olchi eu dillad yn yr afon gerllaw ar ôl y gêm er mwyn golchi peth o'r mwd i ffwrdd.

Problemau a chaeau hefyd fu'n gyfrifol am wyliau i'r hogia' ar y ddau Sadwrn dilynol. 'Roedd y traeth ym Mhorthaethwy o dan ddŵr ar y 9fed a methodd Bangor Athletic â chael cae i chwarae arno ar y 16fed.

23.2.80:

Cwpan J.W. Lees
Jolly Sailor (Rhyl) v Llanberis
1 - 3

Iwan Evans yn sgorio yn yr hanner cyntaf i Lanberis a 'Jolly Sailor' yn dod yn ôl i wneud y gêm yn gyfartal cyn hanner amser.

'Roedd Iwan yn chwarae'n eithriadol o dda yn yr ail hanner a sgoriodd ddwy gôl arall i ennill y gêm. 'Jolly Sailor' yn pwyso'n drwm yn yr ail hanner ond Llanberis yn dal eu tir gyda chwarae da gan Gwilym Williams yn y gôl a Michael Roberts, Peter Jones, Gareth Williams a Kelvin Jones yn arbennig o dda yn y cefn.

Am yr ail fis yn olynol, gemau cwpan aeth â bryd Llanrug. Siom fawr oedd colli'r Cwpan Iau ar ôl ei ennill am y ddau dymor diwethaf, ond daeth llwyddiant yn y ddau gwpan arall.

Yn rownd gyntaf Cwpan Alves, maeddwyd Tal-y-sarn o 10-1 yn y mwd, ond bu bron i'r gêm beidio â chael ei chwarae oherwydd cyflwr truenus cae Tal-y-sarn. Dic Owen (4), Hefin Jones (3), Mike Roberts, Hefin Pritchard a Dafydd Horman oedd y sgorwyr.

'Roedd hanner cyntaf y gêm rhwng Caernarfon Res. a Llanrug yn y Cwpan Iau yn debycach i gêm rygbi ar adegau, gyda thaclo blêr a brwnt. Anafwyd A.V. Owen o Lanrug yn ystod chwarter awr cyntaf y gêm, a bu'n rhaid iddo gael pwythau i'w goes yn yr ysbyty. Er hynny, 'roedd Llanrug ar y blaen hanner amser o 1-0 gyda gôl gan Peter Roberts. Yn yr ail hanner, 'roedd Caernarfon yn haeddu ennill gyda thair gôl dda.

Tim Bangor o Gynghrair y Gogledd oedd yr ymwelwyr yn Rownd 5 o Gwpan J.W. Lees y Sadwrn diwethaf. 'Doedd dim sgôr hanner amser er i Lanrug fynd yn agos yn aml. Yn yr ail hanner, daeth dwy gôl sydyn i Lanrug gan Hefin Pritchard, o fewn rhyw funud i'w gilydd. Sgoriwyd yr ail ar ôl i Len Padmore redeg hyd y cae bron heb i unrhyw un o chwaraewyr Bangor fedru ei atal. Er i Fangor sgorio'n hwyr yn y gêm, 'roedd Llanrug yn llawn haeddu'r fuddugoliaeth, a gêm gartre'n y rownd go-gynderfynol yn erbyn Llanberis.

TABL Y GYNGHRAIR

	ch	en	cyf	coll	o bl	yn erb	pt
Caernarfon	20	12	6	2	64	22	30
Llanberis	17	11	6	0	73	16	28
M. Rangers	19	13	2	4	51	25	28
Llanrug	19	10	2	6	44	29	22

YSGOL BRYNREFAIL

Daeth timau o Fangor ac o Borthaethwy i gystadlu â'r ysgol yn ystod y mis, ac mae'n rhaid cydnabod mai'r ymwelwyr fu fwyaf llwyddiannus.

Trechwyd tim y flwyddyn gyntaf gan Ysgol Friars ond cyfartal, dwy gôl yr un, oedd y canlyniad yn erbyn Ysgol David Hughes.

Y canlyniadau eraill oedd:

Tim yr ail flwyddyn: Brynrefail 1 David Hughes 2

Tim dan 15eg: Brynrefail 2 David Hughes 1

Tim Hŷn: Brynrefail 1 David Hughes 4

YR ARIAN YN BRIN

O ganlyniad i'r cwtogi ar wariant ym myd addysg ni ddaeth yr un geiniog eleni i'r ysgol ar gyfer cludiant. Ni fyddai modd felly chwarae'r gemau arferol yn erbyn ysgolion y Sir heb orfodi'r plant i logi'r bysiau eu hunain. Y rhai ffodus hynny sydd â'u bysiau mini eu hunain, megis Friars a'u tebyg, a fydd yn ymweld â Brynrefail o dro i dro.